

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

DEDDF GAMBLO 2005

DATGANIAD O EGWYDDORION 2025

Daw i rym o 31 Ionawr 2025

Gwasanaethau Rheoleiddio Cyfreithiol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Canolfan Ddinesig
Port Talbot
SA13 1PJ

Ffôn: 01639 763050

Ffacs: 01639 763059

E-bost: licensing@npt.gov.uk

Gellir cael mwy o gopïau o'r cyfeiriad uchod, neu o'r wefan
www.npt.gov.uk/licensing

Cymeradwywyd gan y cyngor ar XX Tachwedd 2024

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

DATGANIAD O EGWYDDORION

Rhan A	Tud.
1.0. Rhagarweiniad	4
2.0. Ymgynghoriad	5
3.0. Proffil Ardal Leol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	6
4.0. Amcanion Trwyddedu	7
5.0. Swyddogaethau Awdurdod Trwyddedu	7
6.0. Awdurdodau Cyfrifol	9
7.0. Partïon sydd â buddiant	9
8.0. Cyfnewid Gwybodaeth	10
9.0. Gorfodi	11
10.0 Hawliau Sylfaenol	12
11.0. Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu	13
12.0. Strategaeth Gymunedol Datblygu Cynaliadwy	13
Rhan B - Trwyddedau Mangre	15
13.0. Egwyddorion Cyffredinol	14
14.0. Amgylchedd Trwyddedau Priodol	17
15.0. Mangreoedd sy'n "barod ar gyfer gamblo"	18
16.0. Ystyriaethau Eraill	19
17.0. Canolfannau Hapchwarae Oedolion	25
18.0. Canolfannau Adloniant Teulu (Trwyddedig)	25
19.0. Casinos	26
20.0. Mangreoedd Bingo	27
21.0 Mangreoedd Betio	28
22.0 Ffeiriau Teithiol	27
23.0. Traciau	29
24.0. Datganiadau Amodol	31
25.0. Adolygiadau	32
Rhan C - Hawlenni/Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro a Hysbysiadau o Ddefnydd Achlysurol	34
26.0. Canolfan Adloniant Teulu Didrwydded	36
27.0. Mangreoedd Trwyddedig i Gyflenwi Alcohol	34
28.0. Hawlenni Hapchwarae Clwb a Pheiriannau Clwb	36
29.0. Hawlenni Hapchwarae am Wobr	37
30.0. Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro	38
31.0. Hysbysiadau o Ddefnydd Achlysurol	39
32.0. Loteriau Cymdeithasau Bach	39
Rhan Ch - Gwneud Penderfyniadau, Amodau a Chodau Ymarfer	41

33.0. Gweinyddu, Arfer a Dirprwyo Swyddogaethau	41
34.0. Gweithdrefn Apêl	41
35.0. Cwynion yn erbyn Mangreoedd Trwyddedig	42
36.0. Peiriannau Hapchwarae mewn Lleoliadau Anghyfreithlon	42
Rhan D – Codau Ymarfer ac Aseidiadau Risg	43
37.0. Trosolwg	43
38.0. Mathau o Ddarpariaeth Codau	43
39.0. Aseidiadau Risg i) Mangreoedd Betio ii) Newidiadau Sylweddol iii) Amrywiadau iv) Adolygiad Cyson o Aseidiadau Risg v) Risgiau Lleol a Mesurau Rheoli	44
40.0. Mwy o Wybodaeth	50
<u>ATODIADAU</u>	
ATODIAD 1 - Map o Gastell-nedd Port Talbot	51
ATODIAD 2 - Ymgylgoreion	52
ATODIAD 3 - Pwerau Dirprwyedig	53

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

Deddf Gamblo 2005

Datganiad o Egwyddorion

RHAN A

1.0. Rhagarweiniad

- 1.1 Yn ôl Deddf Gamblo 2005, mae'n ofynnol i'r cyngor (y cyfeirir ato o hyn allan fel yr "Awdurdod Trwyddedu") baratoi a chyhoeddi "Datganiad o Drwyddedu" a adwaenir fel y Polisi Gamblo sy'n amlinellu'r egwyddorion y mae'r Awdurdod Trwyddedu'n bwriadu eu defnyddio wrth arfer ei swyddogaethau trwyddedu o dan y Ddeddf.
- 1.2 Daw'r Polisi hwn i rym ar 31 Ionawr 2025. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn diweddarau ac yn cyhoeddi Polisi Trwyddedu newydd pryd bynnag y bo'r angen, ond mewn unrhyw achos, o fewn 3 blynedd o ddyddiad y polisi hwn, a bydd yn ymgynghori'n llawn â phartneriaid, cymdeithasau masnach a grwpiau preswylwyr fel sy'n briodol ar yr adeg honno, a bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried ar yr adeg honno.
- 1.3 Fodd bynnag, lle bydd angen diweddariadau oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth genedlaethol, arweiniad statudol neu fanylion cyswllt, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cadw'r hawl i ddiwygio'r polisi hwn heb ymgynghori lle bydd angen sicrhau bod y polisi'n adlewyrchu deddfwriaeth genedlaethol neu arweiniad statudol.
- 1.4 Wrth lunio'r Datganiad Polisi terfynol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n datgan ei fod wedi ystyried amcanion trwyddedu Deddf Gamblo 2005, yr Arweiniad i Awdurdodau Trwyddedu a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, unrhyw godau arfer ac unrhyw ymatebion gan y sawl yr ymgynghorwyd â hwy ar y Datganiad Polisi.
- 1.5 Mae gan yr Awdurdod Trwyddedu rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, ac mae ganddo bolisi ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Bydd trwyddedu pobl a mangreoedd o dan Ddeddf Gamblo 2005 yn mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb gwasanaeth a gorfodi i holl aelodau'r gymuned.

- 1.6 Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i Awdurdod Lleol weithredu mewn ffordd nad yw'n gyson â hawl o'r fath. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried y Ddeddf Hawliau Dynol wrth ystyried unrhyw faterion trwyddedu, ac yn arbennig o ran y ffordd yr ystyrir ceisiadau ac y cynhelir gweithgareddau gorfodi.
- 1.7 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod y gall fod angen iddo wroddi wrth y polisi hwn a'r arweiniad a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf mewn amgylchiadau unigol ac eithriadol, a lle bydd yr achos yn haeddu penderfyniad o'r fath er budd hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Cymerir unrhyw benderfyniad o'r fath drwy ymgynghori ag ymgynghorwyr cyfreithiol priodol yr Awdurdod Trwyddedu, a chofnodir y rhesymau dros unrhyw wriad o'r fath yn llawn.
- 1.8 Dylid nodi na fydd y datganiad o egwyddorion hwn yn sarnu hawl unrhyw berson i wneud cais, neu gyflwyno sylw am gais, neu wneud cais am adolygu trwydded, oherwydd caiff pob un ei ystyried yn ôl ei haeddiant ac yn ôl gofynion statudol Deddf Gamblo 2005.

2.0. **Ymgynghoriad**

- 2.1 Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi ymgynghori'n helaeth cyn cyhoeddi'r datganiad o egwyddorion hwn. Ceir rhestr o ymgynghoreion yn Atodiad 2. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2024.
- 2.2 Cymeradwywyd y datganiad o egwyddorion mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar XX Rhagfyr 2024 ac fe'i cyhoeddwyd ar ein gwefan ar XX Rhagfyr 2024. Mae copiâu wedi'u rhoi mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ac maent hefyd ar gael yng Nghanolffannau Dinesig Castell-nedd a Phort Talbot. Os bydd gennych unrhyw sylwadau am y datganiad o egwyddorion hwn, neu os ydych am weld y rhestr llawn o sylwadau ac ystyriaethau'r awdurdod ynghylch y sylwadau hynny, anfonwch hwy drwy e-bost neu lythyr at y:

Rheolwr Rheoleiddi Cyfreithiol
Gwasanaethau Rheoleiddio Cyfreithiol
Drwyddedu Canolfan Ddinesig
Port Talbot, SA13 1PJ
LRS@npt.gov.uk

3.0. Proffil Ardal Leol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

3.1 ~~Mae gan Gastell-nedd Port Talbot ardal ddaearyddol o 441km² a dyma'r nawfed cyngor mwyaf yng Nghymru, gyda phoblogaeth o 144,386 (yr 11eg o ran dwysedd ei phoblogaeth).~~

3.2 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Corfforaethol 2024-2027 – “Gweithio tuag at CNPT sy'n fwy llewyrchus, teg a gwyrdd” sy'n nodi pedwar amcan lles y Cyngor i fwyafu cyfraniad y Cyngor at y saith nod llesiant cenedlaethol, gan hefyd gyflawni ei ddyletswydd i wella lles economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol pobl sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ar gyfer pob amcan lles, nodwyd canlyniadau tymor hir (20 mlynedd) ochr yn ochr â'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf. Pedwar amcan lles y Cyngor yw sicrhau:

- Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;
- Bod pob cymuned yn ffynnu ac yn gynaliadwy;
- Bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu mwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth;
- Swyddi a sgiliau.

3.3 Mae Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot 2023-2028 yn nodi gweledigaeth tymor hir y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am yr ardal. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi mabwysiadu pedwar amcan lles y Cyngor ac mae'r cynllun yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredoedd dros y pum mlynedd nesaf yn unol â phob un o'r amcanion hynny.

3.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i'r rheiny sy'n dymuno gweithredu mangreoedd gamblo yng Nghastell-nedd Port Talbot fod yn gyfarwydd â Chynllun Corfforaethol y cyngor a Chynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac yn rhoi sylw i'r amcanion lles y mae'r bwrdd a'r cyngor yn ceisio'u cyflawni.

3.5 Bydd disgwyl bod gweithredwyr wedi ystyried yr amcanion lles priodol yn eu hasesiadau risg fel y'u hamlinellir ym mharagraff 39 y polisi hwn, gan roi sylw arbennig i amddiffyn plant rhag niwed a'r lefelau uchel o amddifadedd a dyled bersonol yng Nghastell-nedd Port Talbot.

4.0. **Amcanion Trwyddedu**

4.1. Wrth arfer y rhan fwyaf o'i swyddogaethau o dan Ddeddf Gamblo 2005 (y Ddeddf), mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried yr amcanion trwyddedu fel y'u hamlinellir yn Adran 1 y Ddeddf ac fel y'u nodir isod:-

- Atal gamblo rhag achosi troseddu neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throseddu neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi troseddu.
- Sicrhau bod gamblo'n digwydd mewn modd teg ac agored.
- Diogelu plant a phobl ddiamddiffyn eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio drwy gamblo.

4.2 Dylid nodi bod y Comisiwn Gamblo wedi datgan "Mae'r gofynion o ran plant yn benodol i'w diogelu rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan gamblo".

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymwybodol, yn unol ag Adran 153 y Ddeddf, wrth wneud penderfyniadau am drwyddedau mangre a hysbysiadau o ddefnydd dros dro, y dylai geisio caniatáu'r defnydd o'r fangre at ddiben gamblo i'r graddau ei fod yn meddwl bod hynny:-

- yn unol ag unrhyw gôd ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo;
- yn unol ag unrhyw arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn;
- yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu; ac
- yn unol â datganiad o bolisi gamblo'r awdurdod

5.0. **Swyddogaethau Awdurdod Trwyddedu**

5.1. O dan y ddeddf, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn gyfrifol am y canlynol:

- Rhoi Trwyddedau Mangre - lle bydd gweithgareddau gamblo'n cael eu cynnal.

- Rhoi Datganiadau Amodol - ar gyfer mangreoedd a gaiff eu hadeiladu neu eu haddasu ar gyfer gweithgareddau gamblo.
- Rheoli Hawlenni Hapchwarae Clwb a/neu Hawlenni Peiriannau Clwb i glybiau aelodau a sefydliadau lles glowyr sydd am gynnal rhai gweithgareddau hapchwarae.
- Rhoi Hawlenni Peiriannau Clwb - ar gyfer Clybiau Masnachol.
- Rhoi hawlenni ar gyfer rhai peiriannau hapchwarae am symiau bach penodol mewn Canolfannau Adloniant Teulu didrwydded.
- Derbyn hysbysiadau gan fangreoedd â thrwydded alcohol (o dan Ddeddf Trwyddedu 2003) i ddefnyddio dau beiriant hapchwarae neu lai.
- Rhoi Hawlenni Peiriannau Hapchwarae Mangreoedd Trwyddedig ar gyfer mangreoedd sydd wedi'u trwyddedu i werthu/gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre drwyddedig o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 lle ceir mwy na dau beiriant.
- Cofrestru loteriau sy'n loteriau cymdeithasau bach islaw trothwyau rhagnodedig.
- Rhoi Hawlenni Hapchwarae am Wobr.
- Derbyn a Chymeradwyo Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro
- Derbyn Hysbysiadau o Ddefnydd Achlysurol.
- Darparu gwybodaeth i'r Comisiwn Gamblo am fanylion y trwyddedau a roddwyd (gweler is-adran 7.0. ar gyfnewid gwybodaeth).
- Cynnal cofrestrï o'r hawlenni a'r trwyddedau a roddir dan y swyddogaethau hyn.

5.2. Er mwyn ymdrin yn effeithiol â cheisiadau am drwyddedau mangre, hawlenni, hysbysiadau dros dro ac achlysurol, adolygiadau etc., mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi pennu rhestr o swyddogaethau dirprwyedig. Dangosir hyn yn atodiad 3.

5.3. Sylwer na fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ymwneud â thrwyddedu gamblo o bell. Cyfrifoldeb y Comisiwn Gamblo fydd hwn, drwy Drwyddedau Gweithredu.

5.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod mai dim ond un modd o hyrwyddo cyflawni'r tri amcan trwyddedu yw'r swyddogaeth drwyddedu o ran gamblo, felly ni ddylid ei gweld fel modd i ddatrys holl broblemau'r gymuned. Bydd yr Awdurdod

Trwyddedu felly'n parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos, Heddlu De Cymru, Iechyd y Cyhoedd, busnesau lleol, pobl leol a'r rhai sy'n gysylltiedig ag amddiffyn plant er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu fel yr amlinellir. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod ei ddyletswydd o dan Adran 17 Deddf Troseddu ac Anhrefn 1998, o ran atal troseddu ac anhrefn.

6.0. **Awdurdodau Cyfrifol**

6.1. Yn ôl rheoliadau, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu ddatgan yr egwyddorion y bydd yn eu dilyn wrth arfer ei bwerau o dan Adran 157(h) y Ddeddf i ddynodi'n ysgrifenedig gorff sy'n gymwys i gynghori'r awdurdod am amddiffyn plant rhag niwed. Yr egwyddorion yw:

- Yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sy'n cwmpasu ardal gyfan yr Awdurdod Trwyddedu, a'r
- Angen i'r corff fod yn atebol i bobl a etholwyd yn ddemocrataidd, yn hytrach nag unrhyw grŵp sydd â buddiant penodol.

Yn unol â'r awgrym yn Arweiniad y Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Lleol, mae'r awdurdod hwn yn dynodi'r Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin at y diben hwn.

6.2. Mae manylion cyswllt yr holl Awdurdodau Cyfrifol o dan Ddeddf Gamblo 2005 ar gael ar wefan yr Awdurdod Trwyddedu yn: www.npt.gov.uk/trwyddedu.

7.0. **Partïon sydd â buddiant**

7.1. Gall partïon sydd â buddiant gyflwyno sylwadau ynghylch ceisiadau am drwyddedau, neu gyflwyno cais i drwydded gael ei hadolygu. Mae Deddf Gamblo 2005 yn diffinio'r partïon hyn fel a ganlyn:-

“At ddibenion y rhan hon, o ran cais am drwydded mangre neu ynghylch hynny, mae person yn fuddiwr os ydyw, ym marn yr Awdurdod Trwyddedu sy'n cyflwyno'r drwydded neu sy'n derbyn y cais, yn -

a) byw'n ddigon agos at y fangre fel y bydd yn debygol yr effeithir arno gan y gweithgareddau awdurdodedig,

- b) meddu ar fuddion busnes y gallai'r gweithgareddau awdurdodedig effeithio arnynt; neu'n
- (c) cynrychioli pobl sy'n bodloni paragraff (a) neu (b)".

7.2. Yn ôl rheoliadau, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu ddatgan yr egwyddorion y bydd yn eu dilyn wrth arfer ei bwerau o dan Ddeddf Gamblo 2005 i benderfynu a yw person yn fuddiwr. Yr egwyddorion yw:

Penderfynir ar bob achos ar sail ei deilyngdod. Ni fydd yr awdurdod yn defnyddio rheol gaeth wrth benderfynu, ond bydd yn ystyried yr enghreifftiau o ystyriaethau a ddarparwyd yn Arweiniad y Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu.

Bydd hefyd yn ystyried Arweiniad y Comisiwn Gamblo y dylid dehongli parti 'sydd â buddion busnes' yn yr ystyr ehangaf posib a chynnwys partneriaethau, elusennau, grwpiau ffydd a meddygfeydd

Gall partiön sydd â buddiant fod yn bobl sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd megis cynghorwyr ac Aelodau Seneddol. Ni fydd angen tystiolaeth benodol o gais i gynrychioli person â buddiant ar yr amod bod y Cynghorydd etc yn cynrychioli'r ward y mae'n debygol yr effeithir arni. Yn yr un modd, ystyrir bod Cynghorau Plwyf/Cymuned y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn bartiön sydd â buddiant. Heblaw am y bobl hyn, fel arfer bydd yn ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu hwn gael tystiolaeth ysgrifenedig bod person 'yn cynrychioli' rhywun sydd naill ai'n byw'n ddigon agos at y fangre fel y bydd y gweithgareddau awdurdodedig yn debygol o effeithio arno, a/neu fuddion busnes y gallai'r gweithgareddau awdurdodedig effeithio arnynt. Mae llythyr gan un o'r personau hyn yn gofyn am gael ei gynrychioli'n ddigonol.

Os yw unigolion am ofyn i Gynghorwyr gynrychioli eu barn, dylid gofalu nad yw'r Cynghorwyr yn aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu sy'n ymdrin â'r cais am drwydded. Os oes unrhyw amheuan, cysylltwch â'r tîm Gwasanaethau Rheoleiddio Cyfreithiol drwy ffonio 01639 763050 (gwasanaeth ffonio'n ôl) neu e-bostiwrch LRS@npt.gov.uk

8.0. **Cyfnewid Gwybodaeth**

8.1. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Trwyddedu gynnwys yn eu datganiad o bolisi yr egwyddorion i'w cymhwyso gan yr

Awdurdod wrth arfer y swyddogaethau o dan adrannau 29 a 30 ydeddf o ran cyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r Comisiwn Gamblo, a'r swyddogaethau o dan Adran 350 y Ddeddf o ran cyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r bobl eraill a restrir yn Atodlen 6 y Ddeddf.

8.2. Yr egwyddor a gymhwysir gan yr Awdurdod Trwyddedu hwn yw y bydd yn gweithredu'n unol â darpariaethau Deddf Gamblo 2005 wrth gyfnewid gwybodaeth sy'n cynnwys y ddarpariaeth nad eir yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn rhoi sylw i unrhyw arweiniad a ddarperir gan y Comisiwn Gamblo ynghylch y mater hwn, yn ogystal ag unrhyw reoliadau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan y pwerau a ddarperir yn Neddf Gamblo 2005.

8.3. Os caiff unrhyw brotocolau eu sefydlu o ran cyfnewid gwybodaeth â chyrrff eraill, yna byddant ar gael i eraill.

9.0. **Gorfodi**

9.1. O dan Ddeddf Gamblo 2005, mae'n ofynnol i Awdurdodau Trwyddedu ddatgan yr egwyddorion y bydd yr Awdurdod yn eu dilyn wrth arfer y swyddogaethau o dan Ran 15 y Ddeddf mewn perthynas ag archwilio mangreoedd; a'r pwerau o dan Adran 346 y Ddeddf i gychwyn achos troseddol mewn perthynas â'r tramgwyddau a nodwyd.

9.2. Dyma egwyddorion yr Awdurdod Trwyddedu:

Caiff ei arwain gan Arweiniad y Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol, Côt y Rheolyddion a pholisi gorfodi'r Awdurdod Trwyddedu. Bydd yn ymdrechu i fod yn:

- Gymesur: dylai rheoleiddwyr ymyrryd pan fo hyn yn angenrheidiol yn unig. Dylai camau unioni fod yn briodol i'r risg dan sylw a dylid nodi costau a'u cadw mor isel â phosib.
- Atebol: mae'n rhaid bod rheoleiddwyr yn gallu cyfiawnhau penderfyniadau a bod yn agored i graffu gan y cyhoedd.
- Cyson: mae'n rhaid bod rheolau a safonau'n gydlynol a rhaid eu rhoi ar waith yn deg.
- Tryloyw: dylai rheoleiddwyr fod yn agored, cadw rheoliadau'n syml ac yn hawdd eu deall. a
- Wedi'i dargedu: dylai rheoleiddio ganolbwyntio ar y broblem a lleihau'r sgîl effeithiau

- 9.3. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ceisio osgoi dyblygu gwaith cyfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo modd.
- 9.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi rhoi rhaglen sy'n seiliedig ar risg ar waith wedi'i seilio ar:-
- Yr Amcanion Trwyddedu
 - Codau ymarfer perthnasol
 - Arweiniad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo
 - Yr egwyddorion a bennir yn y Datganiad o Bolisi Trwyddedu hwn
 - Polisi gorfodi'r Awdurdod Trwyddedu
- 9.5 Prif rôl gorfodi a chydymffurfiaeth yr Awdurdod Trwyddedu o dan Ddeddf Gamblo 2005 fydd sicrhau y cydymffurfir â'r trwyddedau mangre a phob math arall o ganiatâd perthnasol y mae'n ei awdurdodi. Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ymdrin â phryderon am gynhyrchu, cyflenwi nac atgyweirio peiriannau hapchwarae ond hysbysir y Comisiwn Gamblo amdanynt.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried dogfen arweiniol y Comisiwn Gamblo a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015 (neu unrhyw ddiwygiadau dilynol) sef 'Ymagwedd at Bryniannau Prawf' wrth ystyried gwneud pryniannau prawf mewn mangreoedd gamblo. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn dilyn ei bolisiau a'i weithdrefnau ei hun o ran defnyddio prynwyr prawf dan oed.

- 9.7. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn sicrhau bod ganddo'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o ran gwaith y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio wrth iddo ystyried swyddogaethau rheoleiddiol Awdurdodau Lleol.

10.0. **Hawliau Sylfaenol**

- 10.1 O dan delerau'r Ddeddf, gall unrhyw unigolyn/gwmni gyflwyno cais am fathau amrywiol o ganiatâd ac ystyrir y ceisiadau hynny ar sail eu teilyngdod unigol. Yn yr un modd, mae gan unrhyw Fuddiwr neu Awdurdod Cyfrifol yr hawl i gyflwyno sylwadau perthnasol neu gais, neu i ofyn am adolygiad o drwydded neu dystysgrif lle darparwyd iddynt wneud hynny yn y Ddeddf.

10.2 Mae gan ymgeiswyr a'r rheiny sy'n cyflwyno sylwadau perthnasol o ran ceisiadau i'r Awdurdod Trwyddedu hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod Trwyddedu i'r Llys Ynadon.

11.0. **Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu**

11.1 Drwy ymgynghori'n eang cyn i'r Datganiad Polisi hwn gael ei gyhoeddi, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried polisïau lleol ar atal trosedd, diwylliant, trafniadaeth, cynllunio a thwristiaeth yn llawn fel rhan o strategaeth integredig ar gyfer y Cyngor, yr heddlu ac asiantaethau eraill. Mae'n bosib na fydd llawer o'r strategaethau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu, ond gallant effeithio'n anuniongyrchol arnynt.

11.2 Wrth ystyried unrhyw gais, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n osgoi dyblygu â gwaith cyfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo modd. Felly, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n atodi amodau i drwydded oni bai yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol, yn rhesymol ac yn gymesur â'r defnydd o'r fangre ar gyfer gamblo sy'n gyson â'r amcanion trwyddedu.

12.0. Strategaeth Gymunedol Datblygu Cynaliadwy

12.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Mae'r Ddeddf hon yn cysylltu'n benodol ag atal trosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y pum ffordd o weithio a gynhwysir o dan y Ddeddf hon sef:

Tymor hir (sut rydym yn cefnogi lles tymor hir pobl) - Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod yr angen i bobl allu mwynhau eu hamser hamdden a chymdeithasu â ffrindiau a theulu mewn amgylchedd amrywiol a bywiog. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niweidiau gamblo a sicrhau bod gweithredwyr yn gallu nodi oedolion agored i niwed sy'n gaeth i gamblo/â phroblemau gamblo, i gynnig help, arweiniad a chefnogaeth drwy gyfeirio priodol.

Integreiddio (effeithiau ar ein hamcanion lles) - Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn sicrhau bod plant ac oedolion sy'n gaeth i gamblo/ â phroblemau gamblo yn cael eu hamddiffyn. Bydd disgwyl bod mangreoedd sy'n cynnig gweithgareddau gamblo wedi rhoi ystyriaeth briodol mewn amserlenni gweithredu o ran sut y byddant yn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn y fangre. Yn yr un modd, bydd disgwyl i amserlenni gweithredu sicrhau nad yw eu busnes yn cael effaith negyddol ar y rheini sy'n byw yng nghyffiniau'r fangre.

Cyfrangogaeth (sut mae pobl wedi cymryd rhan) - Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cynnal ymarfer ymgynghori helaeth a phellgyrhaeddol wrth ddatblygu'r polisi hwn.

Cydweithio (gweithio gyda gwasanaethau/sefydliadau eraill) - Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill ac asiantaethau partner ledled Cymru i ddatblygu polisiâu a phrosesau cyson. Mae aelodaeth o'r Sefydliad Trwyddedu a chynrychiolaeth ar Banel Arbenigwyr Trwyddedu Cymru gyfan yn galluogi'r Awdurdod Trwyddedu i weithio gydag awdurdodau lleol eraill, asiantaethau partner a chyrrff masnach ledled Cymru i ddatblygu polisiâu a phrosesau cyson er mwyn cyflawni ei amcanion.

Atal (sut mae atal problemau rhag digwydd neu waethygu) - Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried pob cais yn ofalus i sicrhau bod yr amcanion trwyddedu a nodir yn y Ddeddf yn cael eu hyrwyddo ar bob adeg. Pan ganfyddir nad yw mangre'n gweithredu mewn modd diogel a chyfrifol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gweithio gyda'i bartneriaid i gymryd camau adferol, gan gynnwys gorfodi ffurfiol i ddatrys unrhyw faterion yn gyflym.

12.2 Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot sy'n cynnwys yr awdurdod lleol a chynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau partner yn gyfrifol am gyflawni cyfres o amcanion lles a bennwyd yn lleol y mae'n rhaid iddynt fynd i'r afael â'r nodau llesiant cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

12.3 O dan Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried effaith debygol arfer eu

swyddogaethau ar droseddu ac anhrefn yn eu hardal, a gwneud popeth y gall i'w hatal. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw penodol i effaith debygol trwyddedu ar droseddu ac anhrefn cysylltiedig yn yr ardal, yn enwedig wrth ystyried lleoliad, effaith gweithredu a rheoli'r holl geisiadau arfaethedig am drwyddedau/hawlenni, adnewyddu ac amrywio amodau.

Rhan B - Trwyddedau Mangre

13.0. Egwyddorion Cyffredinol

- 13.1. Bydd trwyddedau mangre yn amodol ar y gofynion a nodir yn Neddff Gamblo 2005 a'r rheoliadau, yn ogystal â'r amodau gorfodol a sylfaenol y manylir arnynt gan reoliadau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae Awdurdodau Trwyddedu'n gallu eithrio amodau sylfaenol a gallant atodi rhai eraill lle credir bod hyn yn berthnasol.
- 13.2. Wrth benderfynu ynghylch trwyddedau mangre, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymwybodol y dylai ganiatáu defnyddio mangre at ddiben gamblo ar yr amod y mae'n meddwl bod hynny:-
 - yn unol ag unrhyw gôd ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo;
 - yn unol ag unrhyw arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn;
 - Yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu; ac
 - Yn unol â datganiad o bolisi gamblo'r awdurdod.
- 13.3 Gwerthfawrogir nad yw gwrthwynebiadau moesol i gamblo yn rheswm dilys dros wrthod ceisiadau am drwyddedau mangre (ac eithrio o ran 'penderfyniad dim casino' - gweler yr adran ar gasinos isod) a hefyd nid yw galw heb ei ateb yn faen prawf ar gyfer Awdurdod Trwyddedu.
- 13.4 Mae'r Amodau a Chôd Ymarfer Trwyddedu (LCCP) a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo sy'n cychwyn ym mis Mai 2015 yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar fangreoedd i gwblhau asesiad risg yn seiliedig ar Gôd 8 y côd cyfrifoldeb cymdeithasol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried yr LCCP wrth ystyried ceisiadau.
- 13.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn nodi arweiniad y Comisiwn Gamblo ar sicrhau mai betio yw prif weithgaredd mangre drwyddedig. Efallai bydd peiriannau hapchwarae ar gael

i'w defnyddio mewn mangreoedd betio trwyddedig dim ond ar adegau pan fydd cyfleusterau digonol ar gyfer betio hefyd ar gael. Bydd angen i weithredwyr ddangos mai betio fydd prif weithgaredd y fangre wrth geisio amrywiadau i drwyddedau.

13.6 Mae'r Ddeddf yn diffinio mangre fel "unrhyw le". Felly, ni all mwy nag un drwydded mangre fod yn gymwys i "unrhyw le" yn ôl Adran 152. Fodd bynnag, gellir rhoi mwy nag un drwydded mangre i un adeilad, ar yr amod eu bod ar gyfer gwahanol rannau o'r adeilad a gellir ystyried yn rhesymol fod gwahanol rannau o'r adeilad yn fangreoedd gwahanol. Mae hyn yn darparu ar gyfer mangre uned luosog fawr megis parc pleser, canolfan siopa etc. i gael trwyddedau mangreoedd ar wahân/penodol lle mae dulliau diogelu priodol ar waith. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw arbennig os oes pryderon am israniadau adeilad neu lain sengl a bydd yn sicrhau y cydymffurfir ag amodau gorfodol ynghylch mynediad.

13.7 Mae'r Comisiwn Gamblo'n datgan yn ei Arweiniad i Awdurdodau Trwyddedu "yn y rhan fwyaf o achosion, y disgwyliad yw y bydd adeilad unigol yn destun cais am drwydded e.e. 32 Y Stryd Fawr. Ond nid yw hynny'n golygu na all 32 Y Stryd Fawr fod yn destun trwyddedau mangre ar wahân ar gyfer y llawr isaf a'r llawr gwaelod. Bydd yn dibynnu ar amgylchiadau a ellir ystyried bod gwahanol rannau o adeilad yn wahanol fangreoedd mewn gwirionedd. Bydd lleoliad y fangre'n amlwg yn ystyriaeth bwysig a bydd addasrwydd y rhaniad yn debygol o fod yn fater trafodaeth rhwng y gweithredwr a'r swyddog trwyddedu. Fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn yn ystyried y gall manau mewn adeilad sydd wedi'u rhannu mewn modd artiffisial neu dros dro gan raffau neu raniadau symudwy gael eu hystyried yn iawn fel mangreoedd gwahanol".

13.8 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw penodol i Arweiniad y Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol sy'n datgan y:

Dylai'r Awdurdod Trwyddedu roi sylw penodol wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau lluosog ar gyfer adeilad a cheisiadau am ran benodol o adeilad a ddefnyddir at ddibenion eraill (nad ydynt yn ymwneud â gamblo). Yn benodol, dylent fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Nod y trydydd amcan trwyddedu yw atal gamblo rhag niweidio plant. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu nid yn unig eu hatal rhag cymryd rhan mewn gamblo, ond eu hatal rhag bod yn agos at weithgareddau gamblo hefyd. Dylai

mangreoedd gael eu trefnu fel nad yw plant yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gamblo, nid ydynt yn cael mynediad damweiniol iddo na'r cyfle i'w weld yn agos lle cânt eu gwahardd rhag cymryd rhan.

- Dylai fod gan rannau o adeilad sy'n destun un neu fwy o drwyddedau mangre fynedfeydd ac allanfeydd ar wahân sy'n hawdd eu nodi fel na fydd dim i amharu ar gadw'r mangreoedd gwahanol ar wahân ac ni fydd pobl yn gallu crwydro i fan gamblo heb sylweddoli. Yn y cyd-destun hwn, dylai fod modd cael mynediad i'r fangre fel arfer heb fynd drwy fangre drwyddedig arall neu drwy fangre â hawlen.
- Dylai cwsmeriaid allu cymryd rhan yn y gweithgaredd a enwir ar drwydded y fangre.

Mae'r Arweiniad hefyd yn rhoi rhestr o ffactorau y dylai'r Awdurdod Trwyddedu fod yn ymwybodol ohonynt, a all gynnwys:

- A yw'r fangre wedi'i chofrestru ar wahân ar gyfer trethi busnes
- Ai'r un person sy'n berchen ar fangre gyfagos y fangre, neu berson arall?
- A oes modd cael mynediad i'r holl fangreoedd o'r stryd neu o dramwyfa gyhoeddus?
- Ai dim ond trwy fangre gamblo arall y gellir cael mynediad i'r fangre?

14.0. **Amgylchedd Trwyddedau Priodol**

- 14.1 Mae'r Arweiniad i Awdurdodau Lleol a'r Amodau a Chodau Ymarfer Trwyddedu (LCCP) yn amlinellu materion ychwanegol y dylai'r Awdurdod Trwyddedu roi sylw iddynt wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau ar gyfer trwyddedau mangre.
- 14.2 Mae'r arweiniad yn pennu cyfyngiadau ar weithgareddau gamblo mewn mangre, y'i hadwaenid yn flaenorol yn brif weithgaredd gamblo. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried unrhyw gais cynnar yn seiliedig ar y darpariaethau yn y codau a'r arweiniad hwn.
- 14.3 Lle darperir cyfleusterau gamblo mewn mangre fel gweithgaredd ychwanegol at brif ddiben y fangre; e.e. ardaloedd gwasanaethau traffyrdd a chanolfannau siopa,

bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i'r ardal gamblo fod wedi'i diffinio'n glir i sicrhau bod cwsmeriaid yn llwyr ymwybodol eu bod yn gwneud dewis i fynd i mewn i'r fangre gamblo, a bod yfangre wedi'i goruchwyllo'n briodol ar bob adeg.

14.4 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried y rhain ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill wrth wneud ei benderfyniad, gan ddibynnu ar holl amgylchiadau'r achos.

15.0. **Mangreoedd sy'n "barod ar gyfer gamblo"**

15.1 Yn ôl yr Arweiniad, ni ddylid rhoi trwydded i ddefnyddio mangre at ddibenion gamblo oni bai bod yr Awdurdod Trwyddedu'n fodlon y bydd yn barod i gael ei defnyddio at ddiben gamblo yn y dyfodol gweddol agos, yn gyson â graddfa'r gwaith adeiladu neu addasu a fydd yn ofynnol cyn y gellir defnyddio'r fangre.

15.2 Os nad yw gwaith adeiladu'r fangre wedi'i gwblhau eto neu os oes angen gwaith addasu, neu os nad oes hawl gan yr ymgeisydd i feddiannu'r fangre, dylid ystyried cais am ddatganiad amodol.

15.3 Wrth benderfynu a ellir rhoi trwydded mangre i fangre lle mae gwaith adeiladu neu addasu'n parhau, bydd yr Awdurdod yn penderfynu ynghylch ceisiadau ar sail eu teilyngdod, gan ddilyn proses ystyried dau gam.

- Yn gyntaf, a ddylid caniatáu i'r fangre gael ei defnyddio at ddiben gamblo
- Yn ail, a oes modd pennu amodau priodol i ddarparu ar gyfer y ffaith nad yw'r fangre eto mewn cyflwr addas i gynnal gweithgareddau gamblo.

15.4 Dylai ymgeiswyr sylwi bod hawl gan yr awdurdod hwn i benderfynu ei bod yn briodol rhoi trwydded yn amodol ar amodau, ond nid yw'n gorfod cyflwyno trwydded o'r fath.

15.5 Mae enghreifftiau manylach o'r amgylchiadau lle gellir rhoi trwydded o'r fath ar gael yn yr Arweiniad.

16.0. **Ystyriaethau Eraill**

Lleoliad:

16.1. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymwybodol na ellir ystyried materion galw o ran lleoliad mangre, ond y gellir rhoi sylw i ystyriaethau o ran amcanion trwyddedu. Bydd yr awdurdod yn rhoi sylw arbennig i amddiffyn plant a phobl ddi-amddiffyn rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan gamblo, yn ogystal â mater troseddu ac anrhefn. Os penderfynir ar unrhyw bolisi penodol o ran ardaloedd lle na ddylid lleoli mangreoedd gamblo, caiff y datganiad hwn ei ddiweddarau. Sylwer nad yw unrhyw bolisi o'r fath yn atal unrhyw gais rhag cael ei gyflwyno a chaiff pob cais ei ystyried ar ei deilyngdod ei hun, a'r ymgeisydd fydd yn gyfrifol am ddangos sut gellir goresgyn pryderon posib.

Cynllunio:

16.2 Mae Arweiniad y Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu'n datgan:

Wrth benderfynu ar geisiadau mae gan yr Awdurdod Trwyddedu ddyletswydd i ystyried yr holl faterion perthnasol ac ni fydd yn ystyried unrhyw faterion amherthnasol, h.y. y rhai nad ydynt yn ymwneud â gamblo a'r amcanion trwyddedu. Un enghraifft o fater amherthnasol fyddai'r tebygolrwydd o'r ymgeisydd yn cael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer eu cynnig.

16.3 Ni fydd yr awdurdod hwn yn ystyried materion amherthnasol, yn unol â'r arweiniad uchod. Mewn ychwanegiadau, mae'r awdurdod yn nodi'r dyfyniad hwn o'r Arweiniad:

Wrth ymdrin â chais am drwydded mangre ar gyfer adeiladau sydd wedi'u cwblhau, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried a oes rhaid i'r adeiladau hynny gydymffurfio ag unrhyw ganiatâd cynllunio neu adeiladu angenrheidiol. Dylid ymdrin â'r materion hynny dan y rheolau cynllunio perthnasol a phwerau rheoliadau adeiladu, ac ni ddylent fod yn rhan o'r ystyriaeth ar gyfer y drwydded mangre. Mae adran 210 o Ddeddf 2005 yn atal awdurdodau trwyddedu rhag ystyried y tebygolrwydd y gallai cynnig yr ymgeisydd gael caniatâd cynllunio neu adeiladu wrth ystyried cais am drwydded mangre. Yn yr un modd, nid yw rhoi trwydded mangre gamblo yn niweidio neu'n atal unrhyw weithredu, a allai fod yn briodol yn ôl y gyfraith, sy'n ymwneud â chynllunio neu adeiladu.

Dyblygu gwaith cyfundrefnau rheoleiddio eraill:

- 16.4 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ceisio osgoi dyblygu gwaith unrhyw systemau statudol/rheoleiddio eraill, lle bynnag y bo modd, gan gynnwys cynllunio. Ni fydd yr awdurdod hwn yn ystyried a yw cais am drwydded yn debygol o fod yn gymeradwyaeth caniatâd cynllunio neu reoliadau adeiladu wrth iddo ei ystyried. Fodd bynnag, bydd yn gwrando'n ofalus ar unrhyw bryderon ynghylch amodau nad yw trwyddedai'n debygol o allu eu bodloni oherwydd cyfyngiadau cynllunio a bydd yn ystyried unrhyw bryderon o'r fath yn ofalus.
- 16.5 Wrth ymdrin â chais am drwydded mangre ar gyfer adeiladau sydd wedi'u cwblhau, ni fydd yr awdurdod hwn yn ystyried a oes rhaid i'r adeiladau hynny gydymffurfio ag unrhyw ganiatâd cynllunio neu adeiladu angenrheidiol. Ni chaiff risgiau iechyd a diogelwch eu hystyried, oherwydd ymdrinnir â'r materion hyn dan reoliadau cynllunio, adeiladu ac eraill, ac ni ddylent fod yn rhan o'r ystyriaeth ar gyfer y drwydded mangre.

Amcanion trwyddedu:

- 16.6 Wrth roi trwyddedau mangre, mae'n rhaid bod yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu. O ran yr amcanion hyn, mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn wedi ystyried Arweiniad y Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol, a nodir rhai sylwadau isod.

Atal gamblo rhag achosi troseddu neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throseddu neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi troseddu.

- 16.7 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ymwybodol bod gan y Comisiwn Gamblo rôl arweiniol wrth atal gamblo rhag achosi troseddu. Rhagwelir fodd bynnag y dylai awdurdodau trwyddedu roi sylw i leoliad arfaethedig mangre gamblo mewn perthynas â'r amcan trwyddedu hwn. Felly, os yw'n hysbys bod gan ardal lefelau uchel o droseddau cyfundrefnol, bydd yr awdurdod hwn yn ystyried yn ofalus a yw'n addas lleoli mangre gamblo yno ac a fyddai amodau'n briodol megis darparu goruchwylwyr drws. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymwybodol o'r angen i wahaniaethu rhwng anhrefn a niwsans. Bydd yn ystyried ffactorau megis a oedd angen cymorth yr heddlu a natur unrhyw ddigwyddiad er mwyn gwahaniaethu.

Sicrhau bod gamblo'n digwydd mewn modd teg ac agored:

16.8 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi nodi cyngor y Comisiwn Gamblo sef na fyddai fel arfer yn disgwyl i awdurdodau trwyddedu ymwneud â sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored, oherwydd eir i'r afael â hyn drwy drwyddedau gweithredu a phersonol.

Diogelu plant a phobl ddiamddiffyn eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio drwy gamblo:

16.9 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n nodi arweiniad y Comisiwn Gamblo mai ystyr yr amcan hwn yw atal plant rhag cymryd rhan mewn gamblo (yn ogystal â chyfyngu ar hysbysebu fel nad yw cynnyrch gamblo yn cael ei anelu at blant nac yn arbennig o ddeniadol iddynt). Bydd yr Awdurdod Trwyddedu felly'n ystyried a oes angen mesurau penodol mewn mangreoedd penodol o ran yr amcan trwyddedu hwn. Gall mesurau priodol gynnwys goruchwyllo mynedfeydd/peiriannau, gwahanu ardaloedd etc.

16.10 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn ymwybodol o Godau Ymarfer y Comisiwn Gamblo mewn perthynas â'r amcan trwyddedu hwn, o ran mangreoedd penodol.

16.11 O ran y term "pobl ddiamddiffyn" nodir nad yw'r Comisiwn Gamblo'n ceisio cynnig diffiniad ond mae'n nodi "y bydd yn tybio, at ddibenion rheoleiddio, fod y grŵp hwn yn cynnwys pobl sy'n gamblo mwy nag yr hoffent; pobl sy'n gamblo mwy nag y gallant ei fforddio; a phobl nad ydynt efallai'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus neu gytbwys ynghylch gamblo oherwydd nam ar y meddwl, alcohol neu gyffuriau". Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ymdrin â'r amcan trwyddedu hwn fesul achos.

16.12 Mae'r Mae'r Amodau a Chodau Ymarfer Trwyddedu (LCCP) yn nodi sut y mae'n rhaid i weithredwyr atal plant rhag cyflawni gweithgareddau gamblo neu hapchwarae sy'ngyfngedig i oed, yn enwedig lle ceir peiriannau hapchwarae trwyddedig.

16.13 Yn benodol, mae'n rhaid i weithredwyr sicrhau bod:

- yr holl staff wedi'u hyfforddi,
- yr holl gwsmeriaid yn cael eu goruchwyllo pan fyddant yn y fangre gamblo
- Rhaid bod ganddynt weithdrefnau ar gyfer nodi cwsmeriaid

sydd mewn perygl o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a hefyd i gyfeirio pobl at gefnogaeth.

- 16.14 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl bod gan yr holl weithredwyr bolisiau a gweithdrefnau ar waith fel sy'n ofynnol gan godau LCCP ar gyfrifoldeb cymdeithasol i gynnwys holl agweddau ar y côd, yn arbennig cofnodion hyfforddiant staff a chofnodion gwahardd o wirfodd.
- 16.15 Mae darpariaethau ychwanegol o ran gwahardd o wirfodd a marchnata yn gynwysedig yn y côd cyfrifoldeb cymdeithasol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried yr holl amodau a chodau wrth ystyried ceisiadau neu gynnal gweithgareddau gorfodi.
- 16.16 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi ystyriaeth i adroddiad Prif Swyddog Meddygol Cymru er mwyn cefnogi'r amcan trwyddedu o amddiffyn plant a phobl ddiamddiffyn eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio drwy gamblo.
- 16.17 Byddai'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau gynnal y gwiriadau angenrheidiol ar bob aelod perthnasol o staff i sicrhau eu bod yn addas i'w cyflogi, yn benodol mewn perthynas â mangreoedd y mae gan blant a phobl ddiamddiffyn fynediad iddynt.

Amodau:

- 16.18 Bydd unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau gan yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn gymesur a byddant yn:
- berthnasol i'r angen i sicrhau bod yr adeilad arfaethedig yn addas fel cyfleuster gamblo;
 - ymwneud yn uniongyrchol â'r fangre a'r fath o drwydded y gwnaed cais amdani;
 - teg ac yn berthnasol o fewn rheswm i'r math o fangre a'i maint; ac
 - yn rhesymol ym mhob ffordd arall.
- 16.19 Gwneir penderfyniadau ar amodau unigol fesul achos, er y byddyr Awdurdod Trwyddedu hwn yn ystyried defnyddio sawl mesur os ystyrir bod angen gwneud hynny, megis defnyddio goruchwylwyr, arwyddion priodol ar gyfer ardaloedd oedolion yn unig etc. Rhoddir ystyriaeth benodol i'r asesiadau risg lleol ar gyfer pob mangre wrth wneud penderfyniadau o'r fath. Ceir sylwadau penodol yn hyn o beth dan rai o'r mathau o drwyddedau isod. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn

disgwyl i'r sawl sy'n cyflwyno cais am drwydded gynnig eiawgrymiadau ei hun ar y ffyrdd y gellir bodloni'r amcanion trwyddedu'n effeithiol, ynghyd ag amodau gorfodol a nodwyd yn Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Amodau Gorfodol a Diofyn)(Cymru a Lloegr) 2007.

16.20 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ystyried mesurau penodol a all fod yn ofynnol ar gyfer adeiladau sy'n destun trwyddedau mangre lluosog. Gall mesurau o'r fath gynnwys goruchwyllo mynedfeydd; gwahanu mannau gamblo o'r mannau lle na cheir gamblo y mae plant yn mynd iddynt; a goruchwyllo peiriannau hapchwarae mewn mangreoedd gamblo nad ydynt yn benodol i oedolion, er mwyn dilyn yr amcanion trwyddedu. Mae'r materion hyn yn unol ag Arweiniad y Comisiwn Gamblo a Chodau Ymarfer.

16.21 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn sicrhau, lle bydd peiriannau Categori C neu uwch ar gael mewn mangre lle derbynnir plant:

- y lleolir yr holl beiriannau o'r fath mewn man sydd wedi'i wahanu o weddill y fangre gan rwystr ffisegol sy'n atal mynediad yn effeithiol heblaw drwy fynedfa ddynodedig;
- mai oedolion yn unig gaiff fynediad i'r man lle mae'r peiriannau;
- y goruchwylir y fynedfa i'r man lle lleolir y peiriannau;
- bod y man lle cedwir y peiriannau wedi'i drefnu fel y gall staff y gweithredwr neu ddaliwr y drwydded arsylwi arno; a
- ger mynedfa unrhyw fan o'r fath a'r tu mewn iddo, yr arddangosir hysbysiadau mewn man amlwg sy'n nodi bod mynediad i'r man wedi'i wahardd i bobl dan 18 oed.

Bydd yr ystyriaethau hyn yn gymwys i fangreoedd gan gynnwys adeiladau lle mae trwyddedau mangreoedd lluosog yn gymwys.

16.22 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymwybodol y gall fod un neu fwy o drwyddedau mangre gan draciau, ar yr amod bod pob trwydded yn ymwneud â rhan benodol o'r trac. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o fangre'n amlwg a bod plant yn cael eu gwahardd o ardaloedd gamblo lle na chaniateir iddynt fynd i mewn iddynt.

- Sylwer bod amodau na all yr Awdurdod Trwyddedu eu hatodi idrwyddedau mangre sef:

- unrhyw amod ar y drwydded mangre sy'n ei gwneud hi'n amhosib cydymffurfio ag amod trwydded weithredu;
- amodau sy'n ymwneud â chategorïau, niferoedd neu ddull gweithredu peiriannau hapchwarae;
- amodau lle bo aelodaeth clwb neu gorff yn ofynnol (mae Deddf Gamblo 2005 yn dileu'r gofyniad am aelodaeth ar gyfer casinos a chlybiau bingo'n benodol ac mae'r ddarpariaeth hon yn ei atal rhag cael ei adfer); ac
- amodau sy'n ymwneud ag arian betio, ffioedd, ennill gwobrau.

Goruchwylwyr Drysau:

16.23 Mae'r Comisiwn Gamblo yn ei Arweiniad i Awdurdodau Trwyddedu yn hysbysu os yw Awdurdod Trwyddedu'n pryderu y gallai mangre ddenu anhrefn neu fod yn destun ymdrechion i gael mynediad heb ganiatâd (er enghraifft gan blant a phobl ifanc), yna efallai bydd yn ofynnol i oruchwilydd drws reoli mynedfeydd i'r fangre, ac mae hawl ganddo osod amodau ar y drwydded mangre i'r perwyl hwn.

16.24 Lle penderfynir y bydd goruchwyllo mynedfeydd/peiriannau'n briodol ar gyfer achosion arbennig, bydd angen penderfynu a ddylai'r rhain gael eu trwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ai peidio. Ni thbyrir yn awtomatig y bydd angen iddynt gael eu trwyddedu gan fod y gofynion statudol ar gyfer gwahanol fathau o fangreoedd yn amrywio.

17.0. Canolfannau Hapchwarae Oedolion

17.1. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw priodol i'r angen am amddiffyn plant a phobl ddi-amddiffyn rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio drwy gamblo a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r awdurdod y bydd mesurau digonol ar waith i sicrhau na chaiff pobl dan 18 oed fynediad i'r manau i oedolion yn unig.

17.2 Lle darperir cyfleusterau gamblo mewn mangre fel gweithgaredd ychwanegol at brif ddiben y fangre; e.e. ardaloedd gwasanaethau traffyrdd a chanolfannau siopa. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i'r ardal gamblo gael ei diffinio'n glir i sicrhau bod cwsmeriaid yn llwyr ymwybodol eu bod yn gwneud dewis i fynd i

mewn i'r fangre gamblo a bod y fangre wedi'i goruchwyllo'n briodol ar bob adeg.

17.3. Gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried mesurau megis:

- Cynlluniau prawf oedran
- Teledu cylch cyfyng
- Goruchwyllo mynedfeydd/mannau lle ceir peiriannau
- Rhwystrau ffisegol i wahanu manau
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysiadau/arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau gwahardd o wirfodd
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau megis GamCare.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol, nac yn gynhwysfawr, a'i nod yw cynnig enghreifftiau o fesurau posib.

18.0. **Canolfannau Adloniant Teulu (Trwyddedig)**

18.1. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw priodol i'r angen am amddiffyn plant a phobl ddiamddiffyn rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio drwy gamblo a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r awdurdod y bydd mesurau digonol ar waith i sicrhau na chaiff pobl dan 18 oed fynediad i'r manau i oedolion yn unig, er enghraifft.

18.2 Disgwylir i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth i ddangos y gwnaed gwiriad cofnod troseddol addas gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar bob aelod o staff yn ei gyflogaeth.

18.3 Caniateir i blant a phobl ifanc gael mynediad i ganolfan adloniant teulu trwyddedig ond ni chaniateir iddynt ddefnyddio peiriannau hapchwarae Categori C. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i'r ymgeisydd sicrhau y bydd mesurau digonol ar waith i atal pobl ifanc dan 18 oed rhag cael mynediad i'r ardaloedd peiriannau hapchwarae sydd i oedolion yn unig. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr fodloni'r amcanion trwyddedu a chydymffurfio â phob amod gorfodol a phob Côt Ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo.

18.4 Mae'n ofynnol bod gwahaniad amlwg rhwng y mathau o beiriannau er mwyn sicrhau nad oes gan blant mynediad at beiriannau Categori C. Mae'n rhaid gosod yr holl beiriannau Categori C mewn ardal o'r fangre sydd ar wahân i weddill y fangre trwy osod rhwystr ffisegol a fydd yn atal mynediad, oni bai am drwy fynedfa dynodedig. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ceisio sicrhau:

- mai oedolion yn unig sy'n cael mynd i'r ardal lle cedwir y peiriannau hapchwarae;
- bod mynediad i'r ardal lle cedwir y peiriannau dan oruchwyliaeth;
- bod yr ardal lle cedwir y peiriannau wedi'i threfnu fel y gall staff y gweithredwr neu ddeiliad y drwydded ei goruchwyllo; a
- bod hysbysiadau amlwg ger mynedfa ardaloedd o'r fath, ac yn yr ardaloedd hyn hefyd, sy'n nodi bod mynediad i'r ardal yn waharddedig i bobl dan 18 oed.

18.5 Gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried mesurau i fodloni'r amcanion trwyddedu, megis:

- Teledu cylch cyfyng
- Goruchwyllo mynedfeydd/mannau lle ceir peiriannau
- Rhwystrau ffisegol i wahanu manau
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysiadau/arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau gwahardd o wirfodd
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau megis GamCare.
- Mesurau/hyfforddiant i staff ar sut i ddelio â phlant ysgol sy'n triwanta yn y fangre.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol, nac yn gynhwysfawr, a'i nod yw cynnig enghreifftiau o fesurau posib.

19.0. **Casinos**

19.1. Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi pasio penderfyniad 'dim casinos' o dan Adran 166 Deddf Gamblo 2005. Daeth y penderfyniad i rym ar 22 Tachwedd 2025.

19.2. Dylai darpar ymgeiswyr trwydded sylwi bod penderfyniad 'dim casinos' wedi'i basio gan yr awdurdod hwn, ac ni chaiff unrhyw geisiadau am fangreoedd casino eu hystyried. Caiff unrhyw geisiadau a dderbynnir eu dychwelyd gyda hysbysiad bod penderfyniad 'dim casinos' ar waith.

20.0. **Mangreoedd Bingo**

20.1. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n nodi bod Arweiniad y Comisiwn Gamblo'n datgan;

y bydd angen i Awdurdodau Trwyddedu fodloni eu hunain bod bingo'n gallu cael ei chwarae mewn unrhyw fangre bingo y gallant roi trwydded mangre iddo. Bydd hwn yn ystyriaeth berthnasol lle bydd gweithredwr mangre bingo sydd eisoes yn bod yn gwneud cais i amrywio ei drwydded i hepgor ardal o'r fangre sydd eisoes yn bod o'i chwmpasiad, ac yna'n gwneud cais am drwydded mangre newydd, neu drwyddedau lluosog, ar gyfer yr ardal honno neu'r ardaloedd hynny a hepgorwyd.

20.2. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymwybodol y gall daliwr trwydded mangre bingo ddarparu nifer o beiriannau hapchwarae categori B i'w defnyddio, nad ydynt yn fwy nag 20% o gyfanswm nifer y peiriannau hapchwarae sydd ar gael i'w defnyddio yn y fangre.

20.3. Caniateir i blant a phobl ifanc fynd i mewn i fangre bingo; fodd bynnag, ni chaniateir iddynt gymryd rhan yn y bingo ac os bydd peiriannau categori B neu C ar gael i'w defnyddio, mae'n rhaid i'r rhain fod mewn lle ar wahân i'r mannau lle caniateir plant a phobl ifanc.

20.4. Os oes peiriannau Categori C neu uwch ar gael yn y fangre bingo y gall plant gael mynediad iddi, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ceisio sicrhau:

- bod unrhyw beiriannau o'r fath wedi'u lleoli mewn ardal o'r fangre sydd wedi'i gwahanu oddi wrth weddill y fangre â rhwystr ffisegol er mwyn atal mynediad heblaw am drwy fynedfa ddynodedig;
- mai oedolion yn unig sy'n cael mynd i'r ardal lle cedwir y peiriannau dan oruchwyliaeth;
- bod mynediad dan oruchwyliaeth i'r ardal lle cedwir y peiriannau;

- bod yr ardal lle cedwir y peiriannau wedi'i threfnu fel y gall staff neu ddeiliad y drwydded ei goruchwyllo; a
- bod hysbysiadau amlwg ger mynedfa ardaloedd o'r fath, ac yn yr ardaloedd hyn hefyd, sy'n nodi bod mynediad i'r ardal yn waharddedig i bobl dan 18 oed.

21.0. **Mangreoedd Betio**

21.1. Yn unol ag Arweiniad y Comisiwn Gamblo, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried maint y fangre, nifer y lleoedd cownter sydd ar gael ar gyfer trafodion person i berson a gallu'r staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau gan blant a phobl ifanc (mae'n drosedd i'r rhai dan 18 oed fetio) neu gan bobl ddiamddiffyn, wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau'r peiriannau betio y mae gweithredwr am eu cynnig.

21.2. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod bod gan gwmnïau betio penodol nifer o fangreoedd yn yr ardal. Er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion cydymffurfio'n cael eu nodi a'u datrys ar y cam cynharaf posib, gofynnir i weithredwyr roi pwynt cyswllt unigol a ddylai fod yn unigolyn mewn swydd uwch y gall yr Awdurdod Lleol gysylltu ag ef yn gyntaf os ceir unrhyw ymholiadau neu broblemau o ran cydymffurfio

22.0. **Ffeiriau Teithiol**

22.1 Lle darperir peiriannau categori D a/neu beiriannau hapchwarae cyfle cyfartal neu am wobwr heb hawlen i'w defnyddio mewn ffeiriau teithiol, cyfrifoldeb yr Awdurdod Trwyddedu yw penderfynu a yw'r gofyniad statudol sef nad yw cyfleusterau ar gyfer gamblo fwy na difyrrwch atodol, yn cael ei fodloni.

22.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried hefyd a yw'r ymgeisydd yn cydymffurfio â diffiniad statudol ffair deithiol.

22.3 Nodir bod yr uchafswm statudol o 27 o ddiwrnodau ar gyfer defnyddio tir at ddiben cynnal ffair yn seiliedig ar flwyddyn galendr ac mae'n berthnasol i ddarn o dir lle cynhelir ffeiriau, ni waeth a yw'r tir yn cael ei ddefnyddio gan yr un ffair deithiol neu ffeiriau gwahanol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gweithio gyda'i awdurdodau cyfagos i sicrhau bod unrhyw dir sy'n croesi ein ffiniau yn cael ei fonitro fel nad yw'r terfynau statudol yn cael eu torri.

23.0. Traciau

23.1. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymwybodol y gall fod un neu fwy o drwyddedau mangre gan draciau, ar yr amod bod pob trwydded yn ymwneud â rhan benodol o'r trac. Yn unol â'r arweiniad, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw arbennig i'r effaith ar y trydydd amcan trwyddedu (h.y. amddiffyn plant a phobl ddi-amddiffyn rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio drwy gamblo) a'r angen i sicrhau bod y mynedfeydd i bob math o fangre ar wahân a bod plant yn cael eu gwahardd o'r manau gamblo na chaniateir iddynt gael mynediad iddynt.

23.2. Felly, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i'r ymgeisydd ddangos mesurau addas i sicrhau nad yw plant yn cael mynediad i gyfleusterau hapchwarae i oedolion yn unig. Nodir y caniateir i blant a phobl ifanc fynd i mewn i fannau trac lle darperir cyfleusterau betio ar ddiwrnodau pan gynhelir rasys cŵn a/neu geffylau ond, serch hyn, cânt eu gwahardd rhag mynd i fannau lle darperir peiriannau hapchwarae (ac eithrio peiriannau categori D).

23.3. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni'r amcanion trwyddedu, fodd bynnag, gall mesurau/amodau trwyddedu priodol gynnwys materion megis:

- Cynlluniau prawf oedran
- Teledu cylch cyfyng
- Goruchwylio mynedfeydd/mannau lle ceir peiriannau
- Rhwystrau ffisegol i wahanu manau
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysiadau/arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau gwahardd o wirfodd
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau megis Gam Care.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol, nac yn gynhwysfawr, a'i nod yw cynnig enghreifftiau o fesurau posib.

23.4 Peiriannau Hapchwarae - lle bo gan yr ymgeisydd drwydded gweithredu betio pŵl ac mae'n bwriadu defnyddio ei hawliad i bedwar peiriant hapchwarae, dylai'r peiriannau hyn (ac eithrio peiriannau Categori D) fod mewn manau lle na chaniateir

mynediad i blant.

- 23.5 Peiriannau Betio - Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn, yn unol â Rhan 6 Arweiniad y Comisiwn Gamblo, yn ystyried maint y fangre a gallu'r staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau gan blant a phobl ifanc (mae'n drosedd i'r rhai dan 18 oed fetio) neu gan bobl ddiameddiffyn, wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau'r peiriannau betio y mae gweithredwr yn bwriadu eu cynnig.
- 23.6 Ceisiadau a chynlluniau - yn ôl y Ddeddf Gamblo (a51), mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno cynlluniau'r fangre gyda'u ceisiadau er mwyn sicrhau bod gan yr Awdurdod Trwyddedu yr wybodaeth angenrheidiol i benderfynu a yw'r fangre'n addas at ddiben gamblo. Caiff y cynllun ei ddefnyddio hefyd er mwyn i'r Awdurdod Trwyddedu gynllunio archwiliadau o fangreoedd yn y dyfodol.
- 23.7 Nid oes angen i gynlluniau traciau fod yn seiliedig ar raddfa benodol ond dylent fod wedi'u llunio ar raddfa a dylent fod yn ddigon manwl i gynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau.
- 23.8 Efallai bydd rhai traciau ar dir amaethyddol lle nad yw'r terfyn allanol wedi'i ddiffinio gan wal neu ffens allanol, megis traciau rasio o fan i fan. Mewn achosion o'r fath, lle codir ffi fynediad, gall deiliaid trwydded mangre trac godi adeileddau dros dro i gyfyngu ar fynediad i fangre.
- 23.9 Mewn achosion prin lle nad oes modd diffinio'r terfyn allanol, mae'n debygol na fydd y trac dan sylw wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer cynnal digwyddiadau chwaraeon neu rasys yn aml. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd modd darparu cyfleusterau betio'n well drwy hysbysiadau o ddefnydd achlysurol lle nad oes angen diffinio ffin y fangre.
- 23.10 Mae'r awdurdod yn gwerthfawrogi ei fod weithiau'n anodd diffinio union leoliad ardaloedd betio ar draciau. Nid oes angen dangos yr union leoliad lle y darperir cyfleusterau betio ar gynlluniau'r trac, yn rhinwedd y ffaith fod betio'n cael ei ganiatáu yn unrhyw le yn y fangre ac oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â dangos union leoliadau rhai mathau o draciau. Dylai ymgeiswyr ddarparu digon o wybodaeth fel y gall yr awdurdod hwn fodloni ei hun fod y cynllun yn dangos y prif ardaloedd lle gallai betio ddigwydd. Ar gyfer caeau ras yn arbennig, mae'n rhaid dangos unrhyw ardaloedd betio sy'n destun y "rheol pum gwaith" (y'i gelwir yn gyffredin yn gylchoedd betio) ar y cynllun.

24.0. Datganiadau Amodol

24.1. Efallai bydd datblygwyr yn dymuno gwneud cais i'r awdurdod hwn am ddatganiadau amodol cyn ymrwymo i gontract i brynu neu brydlesu eiddo neu dir i farnu a yw'n werth bwrw ymlaen â datblygiad o ystyried yr angen am gael trwydded mangre. Nid oes angen i'r ymgeisydd feddu ar drwydded gweithredu er mwyn gwneud cais am ddatganiad amodol.

24.2 Mae adran 204 y Ddeddf Gamblo'n galluogi person i gyflwyno cais i'r Awdurdod Trwyddedu am ddatganiad amodol o ran y fangre y mae e'n:

- disgwyl y caiff ei adeiladu;
- disgwyl y caiff ei newid; neu'n
- disgwyl y caiff yr hawl i'w feddiannu.

24.3 Yr un yw'r broses ar gyfer ystyried cais am ddatganiad amodol ag sydd ar gyfer cais am drwydded mangre. Mae'r ymgeisydd yn gorfod hysbysebu ei gais yn yr un ffordd â chyflwyno cais am sylwadau mangre a cheir hawliau apêl.

24.4 Mewn gwrthgyferbyniad i'r cais am drwydded mangre, nid oes rhaid i'r ymgeisydd feddu ar drwydded weithredu gan y Comisiwn Gamblo neu fod wedi gwneud cais am hyn (ac eithrio yn achos trac) ac nid oes rhaid iddo feddu ar hawl i feddiannu'r fangre y cyflwynwyd cais amodol mewn perthynas â hi.

24.5 Gall dalwyr datganiad amodol gyflwyno cais wedyn am drwydded mangre unwaith bydd y fangre wedi'i hadeiladu, ei newid neu wedi dod i'w feddiant.

24.6 Cyfyngir yr Awdurdod Trwyddedu o ran y materion y gall eu hystyried wrth benderfynu ar gais am drwydded mangre. O ran cyflwyno sylwadau ynghylch ceisiadau am drwyddedau mangre, pan fydd datganiad amodol wedi'i roi, ni ellir ystyried unrhyw sylwadau eraill gan awdurdodau perthnasol neu bartïon sydd â buddiant oni bai eu bod yn ymwneud â materion nad oedd modd ymdrin â hwy ar adeg rhoi'r datganiad amodol neu eu bod yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r ymgeisydd.

24.7 Yn ogystal â hyn, ni all yr awdurdod wrthod rhoi'r drwydded mangre (neu ei rhoi ar delerau gwahanol i'r rhai a atodwyd i'r

datganiad amodol) ac eithrio drwy gyfeirio at faterion:

- nad oedd modd i wrthwynebwyr eu codi ar gam y drwydded dros dro; neu'n
- faterion sydd, ym marn yr awdurdod, yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r gweithredwr; neu
- lle nad yw'r fangre wedi'i hadeiladu yn unol â'r cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais. Mae'n rhaid i hyn fod yn newid sylweddol i'r cynllun ac mae'r Awdurdod Trwyddedu'n nodi y gall drafod unrhyw bryderon sydd ganddo ynghylch yr ymgeisydd cyn gwneud penderfyniad.

25.0. **Adolygiadau**

25.1. Gall partïon sydd â buddiant neu awdurdodau cyfrifol wneud ceisiadau am drwydded mangre. Fodd bynnag, yr Awdurdod Trwyddedu fydd yn penderfynu a ddylid cynnal yr adolygiad. Bydd hyn ar y sail a yw'r cais am yr adolygiad yn berthnasol i'r materion a restrir isod:

- yn unol ag unrhyw gôd ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblu;
- yn unol ag unrhyw arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn;
- yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu; ac
- yn unol â datganiad o bolisi gamblo'r awdurdod.

Bydd yr awdurdod hefyd yn ystyried a yw'r cais yn ddisylwedd, yn flinderus; ni fydd yn achosi'r awdurdod i ddiwygio/dirymu/atal y drwydded, neu a yw yr un peth i raddau helaeth â sylwadau neu geisiadau blaenorol am adolygiad.

25.2 Diben yr adolygiad fydd penderfynu a ddylai'r Awdurdod Trwyddedu gymryd unrhyw gamau'n gysylltiedig â'r drwydded. Os oes cyfiawnhad dros gymryd camau, yr opsiynau sydd ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu yw:-

- ychwanegu, dileu neu ddiwygio amod trwydded a roddwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu;
- eithrio amod sylfaenol a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (e.e. oriau agor) neu ddileu neu ddiwygio amod o'r fath;
- atal y drwydded mangre am gyfnod heb fod yn fwy na thri mis; a

- diddymu'r drwydded mangre.

25.3 Wrth benderfynu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd ar ôl adolygiad, mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried yr egwyddorion a bennir yn Adran 153 y Ddeddf, yn ogystal ag unrhyw sylwadau perthnasol.

25.4 Yn benodol, gall yr Awdurdod Trwyddedu gychwyn adolygiad o drwydded mangre ar sail nad yw daliwr trwydded mangre wedi darparu cyfleusterau gamblo ar y fangre. Diben hyn yw atal pobl rhag gwneud cais am drwydded mewn modd hapfasnachol heb fwriadu ei defnyddio.

Rhan C –
Hawlenni, Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro a Hysbysiadau o
Ddefnydd Achlysurol

26.0. Hawlen Canolfan Adloniant Teulu

26.1 Lle nad oes gan fangre drwydded mangre ond mae'n dymuno darparu peiriannau hapchwarae, gellir gwneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu am hawlen.

26.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr ddangos bod polisiâu a gweithdrefnau ar waith i amddiffyn plant rhag niwed. Nid yw niwed yn y cyd-destun hwn yn gyfyngedig i niwed drwy gamblo, ond mae'n cynnwys ystyriaethau amddiffyn plant ehangach. Caiff effeithlonrwydd y fath bolisiâu a gweithdrefnau ei ystyried ar ei deilyngdod. Gall hyn gynnwys hyfforddi staff ynglŷn ag amheuon bod plant ysgol yn triwanta, sut i ymdrin â phlant ifanc iawn heb eu goruchwylio neu blant sy'n achosi problemau yn y fangre neu'r cyffiniau.

26.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr ddangos:

- dealltwriaeth lawn o'r uchafswm y gellir ei fetio a'r gwobrau mwyaf a ganiateir mewn CAT heb drwydded;
- nad oes gan yr ymgeisydd unrhyw euogfarnau perthnasol (y rhai a amlinellir yn Atodlen 7 y Ddeddf); a
- bod y staff wedi'u hyfforddi i ddeall yn llawn yr uchafswm y gellir ei fetio a'r gwobrau mwyaf a ganiateir.

26.4 Disgwylir i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth y gwnaed gwiriad cofnod troseddol addas gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar bob aelod o staff yn ei gyflogaeth.

26.5 Dylid nodi bod yn rhaid i'r ymgeisydd ddangos y caiff y fangre ei defnyddio'n llwyr neu'n bennaf at ddiben darparu peiriannau hapchwarae i'w defnyddio, a byddent felly'n eithrio unrhyw fangre a gaiff ei defnyddio'n bennaf at unrhyw ddibenion eraill, e.e. ffreuturau, siopau cludfwyd, canolfannau hamdden, garejys a gorsafoedd petrol, a swyddfeydd tacsï.

26.6 Dylid nodi na all yr Awdurdod Trwyddedu'n atodi amodau i'r math hwn o hawlen.

27.0. Mangreuedd Trwyddedig i Gyflenwi Alcohol

27.1. Mae darpariaeth yn y Ddeddf sy'n caniatáu i fangre a drwyddedir i werthu alcohol i'w yfed yn y fangre feddu'n awtomatig ar 2 beiriant hapchwarae, categori C a/neu D. Mae angen i'r fangre hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a thalu'r ffi a bennwyd.

Gall yr Awdurdod Trwyddedu ddileu'r awdurdodiad awtomatig ar gyfer unrhyw fangre os:

- nad yw'r peiriannau'n cael eu darparu'n rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu;
- cynhaliwyd hapchwarae yn y fangre sy'n torri amod adran 282 y Ddeddf, e.e. darparwyd peiriannau hapchwarae mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion o ran lleoliad a gweithredu'r peiriannau hapchwarae;
- defnyddir y fangre at ddiben gamblo'n bennaf; neu
- cyflawnwyd trosedd o dan y Ddeddf Gamblo yn y fangre.

27.2. Os yw mangre'n dymuno cael mwy na 2 beiriant, bydd angen gwneud cais am hawlen a bydd rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried y cais hwnnw yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu, unrhyw arweiniad a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo o dan Adran 25 Deddf Gamblo 2005 ac unrhyw faterion sy'n berthnasol ym marn yr Awdurdod". Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ystyried "y penderfynir ar y fath faterion fesul achos", ond yn gyffredinol, rhoddir sylw i'r angen am amddiffyn plant a phobl ddiamddiffyn rhag niwed neu gael eu hecsbloetio drwy gamblo.

27.3 Bydd disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r Awdurdod y bydd mesurau digonol i sicrhau nad yw pobl ifanc dan 18 oed yn cael mynediad i beiriannau hapchwarae i oedolion.

27.4 Gall mesurau a fydd yn bodloni'r Awdurdod na fydd mynediad i blant gynnwys gosod y peiriannau i oedolion lle gellir eu gweld o'r bar neu gan staff a fydd yn monitro nad yw'r peiriannau'n cael eu defnyddio gan bobl dan 18 oed. Efallai bydd angen hysbysiadau ac arwyddion hefyd. O ran diogelu pobl ddiamddiffyn, gall ymgeiswyr ystyried darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau megis GamCare.

27.5 Cydnabyddir y gall rhai mangreuedd â thrwydded alcohol wneud cais am drwydded mangre ar gyfer eu manau heb drwydded i gyflenwi alcohol. Mae'n debygol y byddai'n ofynnol i unrhyw gais

o'r fath wneud cais am drwydded mangre Canolfan Hapchwarae Oedolion a byddai angen ymdrin ag ef fel hyn.

27.6 Sylwer y gall yr Awdurdod Trwyddedu benderfynu cymeradwyo'r cais gan bennu nifer llai o beiriannau a/neu gategori gwahanol o beiriannau na'r hyn a nodwyd yn y cais. Ni ellir atodi amodau (heblaw am y rhain).

27.7 Sylwer hefyd fod angen i ddaliwr hawlen gydymffurfio ag unrhyw gôd ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo ynghylch lleoliad a gweithrediad y peiriant.

28.0. **Hawlenni Hapchwarae a Pheiriannau Clwb**

28.1 Gall Clybiau Aelodau a Sefydliadau Lles Glowyr (ond nid clybiau masnachol) wneud cais am Hawlen Hapchwarae Clwb neu Hawlen Peiriannau Hapchwarae Clwb.

28.2 Bydd yr Hawlen Hapchwarae Clwb yn galluogi'r fangre i ddarparu peiriannau hapchwarae (3 pheiriant categori B, C neu D), hapchwarae cyfle cyfartal a gemau siawns fel a nodir mewn rheoliadau.

28.3 Bydd Hawlen Peiriant Hapchwarae Clwb yn galluogi'r fangre i ddarparu peiriannau hapchwarae (3 pheiriant categori B, C neu D) yn unig. DS Ni all clybiau masnachol osod peiriannau hapchwarae categori B3A sy'n cynnig gemau lotri yn eu clybiau

28.4. Mae Arweiniad y Comisiwn Gamblo'n datgan: "Rhaid bod gan Glybiau Aelodau o leiaf 25 o aelodau, a bod wedi'u sefydlu a'u cynnal "yn llwyr neu'n bennaf" at ddibenion heblaw am hapchwarae, oni bai y caniateir hapchwarae gan reoliadau ar wahân. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud rheoliadau ac mae'r rhain yn cynnwys clybiau bridge a chwist, sy'n ailadrodd y sefyllfa o dan Ddeddf Gamblo 1968. Mae'n rhaid i glwb aelodau fod yn barhaol ei natur, heb ei sefydlu i wneud elw masnachol, ac wedi'i reoli gan ei aelodau'n gyfartal. Mae enghreifftiau'n cynnwys clybiau gweithwyr, canghennau o'r Lleng Brydeinig Frenhinol a chlybiau â chysylltiadau gwleidyddol".

28.5. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gwrthod cais ar y seiliau canlynol yn unig:

(a) nid yw'r ymgeisydd yn bodloni gofynion clwb aelodau neu fasnachol neu sefydliad lles glowyr ac felly nid oes ganddo hawl i dderbyn y math o hawlen y gwnaed cais amdani;

- (b) defnyddir mangre'r ymgeisydd yn bennaf neu'n llwyr gan blant a/neu bobl ifanc;
- (c) cyflawnwyd trosedd o dan y Ddeddf neu torrwyd un o amodau hawlen gan yr ymgeisydd wrth ddarparu cyfleusterau hapchwarae;
- (ch) mae hawlen yr oedd yr ymgeisydd yn ei dal wedi cael ei diddymu yn y 10 mlynedd blaenorol; neu
- (d) cyflwynwyd gwrthwynebiad gan y Comisiwn neu'r heddlu.

28.6. Mae gweithdrefn gyflym ar gael hefyd o dan y Ddeddf ar gyfer mangreoedd sy'n meddu ar Dystysgrif Mangre Clwb o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 (Atodlen 12, paragraff 10). Ni all clybiau masnachol feddu ar dystysgrif mangre clwb o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac felly ni allant ddefnyddio'r weithdrefn gyflym. Fel y mae Arweiniad y Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu'n ei ddatgan "O dan y weithdrefn gyflym, nid oes dim cyfle i'r comisiwn na'r heddlu gyflwyno gwrthwynebiadau, ac mae llai o resymau gan yr awdurdod dros wrthod hawlen." a "Gellir gwrthod cais dan y broses hon am y rhesymau canlynol:

- (a) mae'r clwb wedi'i sefydlu'n bennaf ar gyfer hapchwarae, heblaw am hapchwarae a bennir dan atodlen 12;
- (b) yn ogystal â'r hapchwarae a bennwyd, mae'r ymgeisydd yn darparu cyfleusterau ar gyfer hapchwarae arall; neu
- (c) mae hawlen hapchwarae clwb neu hawlen peiriannau clwb a roddwyd i'r ymgeisydd yn y deng mlynedd diwethaf wedi'i chanslo.

28.7 Ceir amodau statudol ar hawlenni hapchwarae clwb nad yw unrhyw blentyn yn defnyddio peiriant categori B ac C yn y fangre a bod y daliwr yn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth côd ymarfer berthnasol am leoliad a gweithrediad peiriannau hapchwarae.

29.0. **Hawlenni Hapchwarae am Wobr**

29.1. Mae Deddf Gamblo 2005 yn datgan y gall Awdurdod Trwyddedu "baratoi datganiad o egwyddorion y mae'n bwriadu ei ddefnyddio wrth arfer ei swyddogaethau dan yr Atodlen hon" a "all, yn benodol, nodi materion y mae'r Awdurdod Trwyddedu'n bwriadu eu hystyried wrth benderfynu ar addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer hawlen".

29.2. Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion sef y dylai'r ymgeisydd nodi'r mathau o

hapchwarae y mae'n bwriadu eu cynnig, ac y dylai'r ymgeisydd fod yn gallu dangos:-

- ei fod yn deall y cyfyngiadau i arian betio a gwobrau a amlinellir yn y Rheoliadau;
- bod yr hapchwarae a gynigir o fewn y gyfraith;
- polisiâu clir sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd i ddiogelu plant rhag niwed.

29.3. Wrth wneud penderfyniad am gais ar gyfer yr hawlen hon, nid oes angen i'r Awdurdod Trwyddedu (ond gall) roi sylw i'r amcanion trwyddedu ond mae'n rhaid iddo roi sylw i unrhyw arweiniad gan y Comisiwn Gamblo.

29.4. Dylid nodi bod Deddf Gamblo 2005 yn gosod amodau y mae'n rhaid i ddaliwr yr hawlen gydymffurfio â hwy. Dyma'r amodau:

- mae'n rhaid cydymffurfio â'r cyfyngiadau ar ffioedd cyfranogiad, fel y'u hamlinellir yn y rheoliadau;
- mae'n rhaid dyrannu pob cyfle i gymryd rhan yn yr hapchwarae yn y fangre lle cynhelir yr hapchwarae ac ar un diwrnod; mae'n rhaid i'r gêm gael ei chwarae a'i chwblhau ar y diwrnod y dyrennir y cyfleoedd; ac mae'n rhaid cyhoeddi canlyniad y gêm yn y fangre ar y diwrnod y caiff ei chwarae;
- ni ddylai'r wobwr y chwaraeir y gêm ar ei chyfer fod yn fwy na'r swm a nodir mewn rheoliadau (os yw'n wobwr ariannol), neu'r gwerth a bennwyd (os yw'n wobwr nad yw'n ariannol) ac
- ni ddylai cyfranogi yn yr hapchwarae roi hawl i chwaraewr gymryd rhan mewn unrhyw hapchwarae arall.

29.5 Fodd bynnag, ni all yr Awdurdod Trwyddedu atodi amodau ychwanegol i hawlenni hapchwarae am wobwr.

30.0. **Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro**

30.1 Mae Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro'n caniatáu defnyddio mangre at ddibenion gamblo lle nad oes trwydded gan y fangre ond mae gweithredwr gamblo'n dymuno defnyddio'r fangre dros dro i ddarparu cyfleusterau gamblo. Byddai mangreoedd a allai fod yn addas ar gyfer Hysbysiad o ddefnydd Dros Dro, yn ôl y Comisiwn Gamblo, yn cynnwys gwestai, canolfannau cynadledda a lleoliadau chwaraeon.

- 30.2 Gall yr Awdurdod Trwyddedu roi Hysbysiad o Ddefnydd Dros Dro i berson neu gwmni a chanddynt drwydded weithredu berthnasol yn unig, h.y. trwydded weithredu casino o bell.
- 30.3 Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i bennu pa ffurf ar gamblo y gellir ei hawdurdodi gan Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro, ac ar adeg ysgrifennu'r Datganiad hwn, mae'r rheoliadau perthnasol (SI rhif 3157: Rheoliadau 2007 Deddf Gamblo 2005 (Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro) yn datgan y gellir defnyddio Hysbysiadau o Ddefnydd Dros Dro i ganiatáu darparu cyfleusterau ar gyfer hapchware cyfle cyfartal yn unig, lle y bwriedir i'r hapchwarae gynhyrchu un enillydd sydd yn ymarferol yn golygu twrnameintiau pocer.
- 30.4 Ceir nifer o gyfyngiadau statudol o ran hysbysiadau o ddefnydd dros dro. Nodir yn Arweiniad y Comisiwn Gamblo bod ystyr "mangre" yn rhan 8 y Ddeddf yn cael ei drafod yn Rhan 7 yr arweiniad. Fel gyda "mangre", bydd y diffiniad o "gyfres o fangreoedd" yn gwestiwn ffeithiol yn amgylchiadau penodol pob hysbysiad a roddir. Yn y Ddeddf, diffinnir "mangre" fel man sy'n cynnwys "unrhyw le". Wrth ystyried a yw lle yn cael ei gynnwys yn y diffiniad o "gyfres o fangreoedd", bydd angen i awdurdodau trwyddedu edrych ar, berchnogaeth/ddeiliadaeth a rheoli'r fangre, ymysg pethau eraill.
- 30.5 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n debygol o wrthwynebu hysbysiadau lle bo'n ymddangos y byddai eu heffaith yn caniatáu gamblo rheolaidd mewn lle y gellir ei ddisgrifio fel un fangre.

31.0. **Hysbysiadau o Ddefnydd Achlysurol**

- 31.1 Ychydig iawn o ddisgresiwn sydd gan yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch yr hysbysiadau hyn ar wahân i sicrhau nad yw'r terfyn statudol o 8 niwrnod mewn blwyddyn galendr yn cael ei dorri. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried diffiniad 'trac' ac a ganiateir i'r ymgeisydd wneud cais am yr hysbysiad

32.0. **Loterïau Cymdeithasau Bach**

- 32.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar risg at ei gyfrifoldebau gorfodi ar gyfer loterïau cymdeithasau bach. Mae'r awdurdod hwn yn ystyried y gallai'r rhestr ganlynol, er nad yw'n gyfyngedig, effeithio ar statws y gweithredwr:

- Cyflwyno ffurflenni'n hwyr (mae'n rhaid cyflwyno ffurflenni heb fod yn hwyrach na thri mis wedi'r dyddiad y cynhaliwyd y lotri)
- Cyflwyno ffurflenni anghyflawn neu anghywir
- Torri'r cyfyngiadau ar gyfer loteriau cymdeithasau bach

32.2 Caniateir hapchwarae anfasnachol os caiff ei gynnal mewn digwyddiad anfasnachol, naill ai fel prif weithgaredd neu weithgaredd achlysurol yn y digwyddiad. Mae digwyddiadau'n anfasnachol os nad yw unrhyw ran o'r enillion ar gyfer elw neu fudd preifat. Gall un unigolyn neu fwy elwa o enillion digwyddiadau o'r fath os yw'r gweithgaredd wedi'i drefnu:

- Gan neu ar ran elusen neu at ddibenion elusennol.
- I alluogi cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon, athletaidd neu ddiwylliannol neu eu cefnogi.

Rhan Ch - Gwneud Penderfyniadau, Amodau a Chodau Ymarfer

33.0. Gweinyddu, Arfer a Dirprwyo Swyddogaethau

33.1 Gall y Pwyllgor Trwyddedu, Is-bwyllgor neu un swyddog neu fwy sy'n gweithredu dan awdurdod wedi'i ddirprwyo gyflawni pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod Trwyddedu o dan y Ddeddf.

33.2 Ystyrir y bydd llawer o'r swyddogaethau'n weinyddol eu natur gan mwyaf, heb rannau dadleuol canfyddedig. Er effeithlonrwydd a chost-effeithlonrwydd, cyflawnir y rhain gan swyddogion gan amlaf.

33.4 Atodir atodlen dirprwyo swyddogaethau trwyddedu yn Atodiad 4

34.0. Gweithdrefn Apêl

34.1 Pennir darpariaethau apelio ar gyfer partïon sy'n anghytuno â phenderfyniadau'r Awdurdod Trwyddedu yn Adrannau 206 i 209 Deddf 2005. Mae'n rhaid cyflwyno apeliadau i'r Llys Ynadon ar gyfer ardal yr Awdurdod Trwyddedu a ystyriodd y cais.

34.2 Mae'n rhaid i'r apelydd gychwyn apêl trwy roi hysbysiad o'r apêl i'r; Clerc i'r Ynadon, Llys Ynadon Abertawe, Grove Place, Abertawe SA1 5DB , o fewn 21 o ddiwrnodau, gan ddechrau gyda'r diwrnod pan roddodd yr Awdurdod Trwyddedu wybod i'r apelydd am y penderfyniad sy'n destun yr apêl.

34.3 Wrth benderfynu ar apêl, gall y Llys:

- Wrthod yr apêl;
- Disodli'r penderfyniad yr apelir yn ei erbyn gydag unrhyw benderfyniad arall y gallai'r Awdurdod Trwyddedu fod wedi'i wneud;
- Anfon yr achos i'r Awdurdod Trwyddedu i gael gwared ar yr apêl yn unol â chyfarwyddyd y Llys.
- Gwneud gorchymyn am gostau.

34.4 Gan ragweld apeliadau o'r fath, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n darparu rhesymau cynhwysfawr dros ei benderfyniadau. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ymdrin ag i ba raddau y gwnaed penderfyniadau o ran unrhyw godau ymarfer ac arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo, yn rhesymol

gyson â'r amcanion trwyddedu ac yn unol â'r datganiad polisi hwn.

34.5 Cyn gynted ag y rhoddir gwybod i'r holl bartïon am benderfyniad y Llys Ynadon, bydd Awdurdod Trwyddedu yn ei roi ar waith yn ddi-oed, a chymerir unrhyw gamau angenrheidiol ar unwaith oni bai i lys uwch orchymyn atal camau o'r fath (er enghraifft, o ganlyniad i adolygiad barnwrol parhaus). Nid yw'r Ddeddf yn darparu ar gyfer unrhyw apêl arall yn erbyn penderfyniad y Llys Ynadon.

35.0. **Cwynion yn erbyn mangreoedd trwyddedig**

35.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ymchwilio i gwynion yn erbyn mangreoedd trwyddedig am faterion sy'n gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu y mae'n gyfrifol amdanynt. Yn y lle cyntaf, anogir achwynwyr i godi'r gŵyn yn uniongyrchol â daliwr y drwydded neu'r busnes dan sylw i geisio datrysiaid lleol.

35.2 Lle bo buddiwr wedi cyflwyno sylwadau dilys am fangre drwyddedig neu gais dilys i drwydded gael ei hadolygu, gall yr Awdurdod Trwyddedu, i ddechrau, drefnu cyfarfod i fynd i'r afael â materion sy'n peri pryder, a'u hegluro.

35.3 Ni fydd y broses hon yn sarnu hawl unrhyw fuddiwr i ofyn i'r Is-bwyllgor Trwyddedu a Gamblo ystyried ei wrthwynebiadau dilys, neu i unrhyw ddaliwr trwydded wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymodi.

36.0. **Peiriannau hapchwarae mewn lleoliadau anghyfreithlon**

36.1. Gellir gwneud peiriannau hapchwarae ar gael i'w defnyddio os caniateir hynny gan drwydded mangre, hawlen neu esemptiad, e.e.ffeiriau teithiol, yn unig. Nid yw'n bosib gosod peiriannau hapchwarae mewn mangreoedd megis siopau diodydd drwyddedig, siopau papurau newydd, siopau cludfwyd neu siopau manwerthu eraill.

36.2. Os canfyddir peiriannau hapchwarae sydd wedi'u gosod yn anghyfreithlon, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gwneud pob ymdrech i atafaelu'r peiriant hapchwarae ar y cam cyntaf posib er mwyn sicrhau na chaiff y peiriant hapchwarae ei ddefnyddio mwyach.

- 36.3. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gweithio gyda'r Comisiwn Gamblo i ymchwilio i droseddau a gyflawnwyd o dan Ddeddf Gamblo 2005 gan gyflenwr y peiriant a pherchennog y busnes y lleolwyd y peiriant yn anghyfreithiol ynddo.
- 36.4. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn cymryd camau gweithredu ffurfiol yn erbyn perchennog y busnes lle mae peiriannau hapchwarae anghyfreithlon wedi bod ar gael i'w defnyddio yn y fangre. Fel rhan o'r gweithrediadau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ceisio sicrhau gorchymyn fforffedu o dan Adran 345 y Ddeddf er mwyn gallu dinistrio'r peiriant.
- 36.5. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n rhagweld y caiff camau gweithredu tebyg eu cymryd gan y Comisiwn Gamblo i sicrhau y caiff camau gweithredu ffurfiol eu cymryd yn erbyn cyflenwr y peiriant hapchwarae hefyd.

Rhan D – Codau Ymarfer ac Asesiadau Risg

37.0. Trosolwg

- 37.1 Yn ôl Deddf Gamblo 2005 mae'n ofynnol i'r Comisiwn Gamblo gyflwyno un côd ymarfer neu fwy sy'n trafod y ffordd y caiff cyfleusterau gamblo eu darparu. Efallai bydd y codau wedi'u llunio ar gyfer deiliaid trwyddedau gweithredu neu bersonol, neu unrhyw berson arall sy'n ymwneud â darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo.
- 37.2 Mae hefyd yn ofynnol yn ôl y Ddeddf i awdurdodau trwyddedu ystyried, wrth arfer eu swyddogaethau, unrhyw gôd ymarfer perthnasol a gyflwynwyd gan y Comisiwn o dan adran 24, sef (yn yr achos hwn):-
- Amodau a Chodau Ymarfer Trwyddedu'r Comisiwn (LCCP), a fydd yn gymwys i ddeiliaid trwyddedau gweithredu neu bersonoly Comisiwn Gamblo;
 - Codau eraill – dyma godau ymarfer y Comisiwn ar gyfer hapchwarae cyfle cyfartal a'i gôd ymarfer ar gyfer peiriannau hapchwarae mewn clybiau a mangreoedd â thrwydded alcohol

38.0 Mathau o Ddarpariaeth Codau

- 38.1 Mae'r LCCP yn cynnwys dau fath o ddarpariaeth codau, sef Darpariaethau Codau Cyfrifoldeb Cymdeithasol a Darpariaethau Codau Cyffredinol:

Darpariaethau Codau Cyfrifoldeb Cymdeithasol

38.2 Mae'r darpariaethau hyn yn disgrifio trefniadau y dylid eu cyflwyno gan y sawl sy'n darparu cyfleusterau gamblo at ddibenion y canlynol:

- sicrhau y caiff gamblo ei wneud mewn ffordd deg ac agored;
- diogelu plant a phobl ddiamddiffyn eraill rhag niwed neu gael eu hecsbloetio drwy gamblo; a
- sicrhau bod cymorth ar gael i bobl y gall problemau sy'n ymwneud â gamblo effeithio arnynt neu sydd eisoes yn dioddef o'r problemau hyn.

38.3 Mae cydymffurfio â'r uchod yn un o amodau trwyddedau gweithredu; felly, os yw gweithredwr trwyddedig yn torri unrhyw un ohonynt, efallai bydd angen i'r Comisiwn adolygu trwydded y gweithredwr gyda'r nod o atal neu ddiddymu'r drwydded neu gyflwyno cosb ariannol, gyda'r bosibilrwydd o erlyn y gweithredwr hefyd.

Darpariaethau Codau Cyffredinol

38.4 Nid oes gan y rhain yr un statws ag amodau trwydded yn achos gweithredwyr trwyddedig, ond maent yn dangos arfer da. Mae Codau Ymarfer yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn achosion troseddol neu sifil, ac mae'n rhaid eu hystyried mewn unrhyw achos lle mae'r llys neu'r tribiwnlys yn nodi eu bod yn berthnasol, ac wrth arfer swyddogaethau'r Comisiwn. Gall y Comisiwn ystyried unrhyw achos o beidio â dilyn darpariaethau codau, er enghraifft wrth adolygu trwydded (ond ni allai hyn arwain at gyflwyno cosb ariannol).

39.0 Asesiadau Risg

39.1 Yn ôl yr LCCP mae'n ofynnol i bob deiliad trwydded sy'n cynnig gamblo yn ei fangre asesu'r risgiau lleol yn erbyn yr amcanion trwyddedu, a darparu polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli i leihau'r risgiau hyn. Mae'n rhaid i ddeiliaid trwyddedau ystyried unrhyw broblemau perthnasol a nodwyd yn Natganiad o Bolisi (gamblo) yr awdurdod trwyddedu wrth gynnal eu hasesiadau risg.

39.2 Dylai deiliaid trwyddedu gynnal neu ddiweddarau asesiad risg wrth gyflwyno cais dan yr amgylchiadau canlynol:-

- Cyflwyno cais am drwydded mangre newydd;
- Wrth gyflwyno cais am amrywio trwydded mangre bresennol;
- Wrth ystyried unrhyw newidiadau lleol sylweddol yn yr ardal leol;
- Os oes newidiadau sylweddol yn y fangre a all effeithio ar yr asesiad risg lleol presennol.

39.3 Mae'n ofynnol i weithredwyr sicrhau bod yr asesiad risg ar gael i awdurdodau trwyddedu wrth gyflwyno cais a dylid cadw copi yn y fangre neu, fel arall, dylai copi fod ar gael ar gais. Bydd hyn yn rhan o gyfundrefn archwilio neu ymchwilio i gwynion yr Awdurdod Trwyddedu.

39.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i'r materion canlynol gael eu hystyried gan weithredwyr wrth gynnal eu hasesiadau risg:

39.5 Materion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- Sefydliadau, lleoedd neu ardaloedd lle mae presenoldeb plant a phobl ifanc yn ddisgwyliedig, megis ysgolion, clybiau ieuenctid, parciau, lleoedd chwarae a lleoliadau adloniant megis alïau bowlïo, sinemâu etc.;
- Unrhyw fangre lle mae plant yn cwrdd gan gynnwys safleoedd bws, caffis, siopau, ac unrhyw le arall sy'n denu plant;
- Ardaloedd sy'n dueddol o gael problemau o ran pobl ifanc yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol, gan gynnwys gweithgareddau megis graffiti/tagio, yfed dan oed etc.;
- Achosion o geisio gamblo dan oed sy'n cael eu cofnodi.

39.6 Materion sy'n ymwneud ag oedolion diamddiffyn, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a ddelir gan ddeiliad y drwydded mewn perthynas â gwahardd o wirfodd neu gamblo dan oed;
- Tueddiadau hapchwarae sydd o bosib yn cyd-fynd â diwrnodau taliadau ariannol, megis diwrnodau tâl neu ddiwrnodau taliadau budd-daliadau;
- Trefnu i gyfnewid gwybodaeth leol o ran tueddiadau gwahardd o wirfodd a hapchwarae;
- Agosrwydd eiddo lle ceir pobl ddiamddiffyn yn aml megis ysbytai, cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai'r cyngor, clinigau dibyniaeth

neu ganolfannau cymorth, neu leoedd lle bydd pobl sy'n ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau'n cwrdd, etc.

39.7 Gallai materion eraill i'w hystyried gynnwys:

- Agosrwydd at eglwysi, mosgiau, temlau neu unrhyw le addoli arall gan y bydd pobl ddiamddiffyn yn eu defnyddio'n aml, er enghraifft fel lleoedd sy'n darparu banciau bwyd, cyngor ar ddyledion neu gefnogaeth iechyd meddwl;
- sefyllfa economaidd ardal;
- economi nos yr ardal gyfagos;
- cartrefi plant a chyfleusterau gofal;
- nifer yr ymwelwyr â'r ardal, e.e. ardaloedd preswyl neu fasnachol;
- banciau a pheiriannau ATM gerllaw;
- problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol hysbys;
- cyfleusterau tai;
- canolfannau gwaith;
- hosteli a gwasanaethau cefnogi i'r digartref;
- cyfleusterau cefnogi alcohol a chyffuriau;
- gwystlwyr a busnesau benthyciadau diwrnod talu;
- mangreoedd gamblo eraill;
- cyfleusterau iechyd meddwl;
- adeiladau cymunedol;
- sefydliadau gofal preswyl;
- cyfleusterau trafnidiaeth a pharcio e.e. safleoedd bysus, safleoedd tacsis, gorsafoedd trêen;
- presenoldeb pobl sy'n cysgu ar y stryd;
- graddau diweithdra'r ardal;
- mathau a chyfraddau troseddau yn yr ardal a allai effeithio ar y fangre;
- ardaloedd â nifer sylweddol o blant, e.e. parciau a lleoedd chwarae.

39.8. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn ac mae'n rhaid ystyried ffactorau eraill nad ydynt yn ymddangos ar y rhestr hon os cânt eu nodi.

Mangreoedd â Thrac Betio

39.9 Nid yw'n ofynnol i Fangreoedd â Thrac Betio geisio Trwydded Gweithredwr gan y Comisiwn Gamblo ac felly nid oes angen iddynt gynnal asesiad risg. Fodd bynnag, at ddibenion amcanion Deddf Gamblo 2005, sef i) atal gamblo rhag achosi troseddu neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throseddu neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi troseddu; ii) sicrhau bod gamblo'n digwydd mewn modd teg ac agored; iii) amddiffyn plant a phobl

ddiamddiffyn rhag niwed neu gael eu hecsbloetio drwy gamblo, byddai'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i Fangreoedd â Thrac Betio gynnal asesiad risg ar gyfer eu mangre.

Newidiadau Sylweddol

- 39.10 O bryd i'w gilydd bydd gweithredwyr yn diweddarau cynllun adecor y fangre, ac mae'n annhebygol y bydd angen adolyguasesiad risg y fangre honno o ganlyniad i hyn. Fodd bynnag, os gwneir newidiadau sylweddol i'r fangre a allai effeithio ar liniaru risgiau lleol, mae'n rhaid i weithredwr adolygu'r asesiad risg presennol a'i ddiweddarau os oes angen, gan ystyried y newidiadau a sut mae'n effeithio ar un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.
- 39.11 Disgwylir i weithredwyr gamblo gwblhau'r broses asesu risg hon fel mater o arfer ar gyfer unrhyw waith adnewyddu, unrhyw newidiadau i gynllun y fangre neu fesurau rheoli mewnol. Os oes angen adolygu asesiadau risg y fangre o ganlyniad i unrhyw newidiadau, dylai gweithredwyr gamblo sicrhau bod system ar waith i gofnodi unrhyw fesurau a nodwyd yn yr adolygiad hwnnw.
- 39.12 Y gweithredwr gamblo fydd yn gyfrifol am nodi unrhyw newidiadau sylweddol i'r fangre. Er mwyn helpu gweithredwyr gamblo, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi darparu'r rhestr ganlynol o enghreifftiau a allai gael eu hystyried fel newid sylweddol i'r fangre (efallai bydd rhai ohonynt yn gofyn am amrywio trwydded bresennol y fangre hefyd).
- Unrhyw waith adeiladu neu addasu mangre lle mae cyfleusterau gamblo ar gael yn y fangre.
 - Trosglwyddir y drwydded mangre i weithredwr newydd afydd yn gweithredu o'r fangre gyda'i weithdrefnau a'i bolisiäuei hun sy'n wahanol i weithdrefnau neu bolisiäau'r deiliadtrwydded blaenorol.
 - Unrhyw newidiadau i bolisiäau mewnol y gweithredwr y mae angen newid mesurau rheoli presennol neu ychwanegu atynt o ganlyniad i'r newidiadau hyn; a/neu staff y byddangen eu hailhyfforddi ar y newidiadau polisi hynny.
 - Mae mynedfa neu fynedfeydd y fangre wedi newid, er enghraifft mae drws wedi newid o fod yn ddrws metel â gwydro i ddrws gwydr neu mae drws wedi newid o fod yn fynedfa i fod yn allanfa neu i'r gwrthwyneb.

- Mae cyfleusterau gamblo newydd nad oeddent ar gael yn flaenorol bellach ar gael ar y safle, er enghraifft betio yn ystod chwarae, dyfeisiau gemau llaw i gwsmeriaid, peiriannau betio hunanwasanaeth neu gategori gwahanol o beiriant hapchwarae.
- Mae gweithredwr y fangre'n cyflwyno cais am drwydded i ddarparu gweithgaredd dan drefn reoleiddio wahanol yn y fangre honno, er enghraifft gwerthu alcohol.

39.13 Yn yr un modd â'r enghreifftiau o newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau lleol, nid yw'r rhestr uchod yn rhestr gyflawn o newidiadau sylweddol i fangreoedd.

39.14 Fel arfer cyffredinol, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gofyn am gopi o'r asesiad risg a adolygwyd os gwnaed unrhyw newidiadau sylweddol i'r fangre drwyddedig, oni bai fod y newid yn un y bydd angen cais am amrywiad ar ei gyfer.

Amrywiadau

39.15 Nid oes angen gwneud unrhyw amrywiadau i drwyddedau mangreoedd heblaw am y rheiny sy'n ofynnol o dan Adran 187 y Ddeddf, ac nid oes angen cynnwys newidiadau mewn amgylchiadau megis newid i enw mangre neu newid i gyfeiriad y deiliad trwydded, etc.

39.16 Mae Darpariaethau Codau Cyfrifoldeb Cymdeithasol LCCP y Comisiwn yn gofyn i weithredwyr gamblo gynnal adolygiad o'r asesiad risg lleol a'i ddiweddarau os oes angen gwneud hynny wrth baratoi cais i amrywio trwydded y fangre. Efallai bydd gweithredwyr sy'n cyflwyno cais am amrywiad i'r Awdurdod Trwyddedu'n ystyried cyflwyno copi o'r asesiad risg lleol a adolygwyd wrth gyflwyno'r cais. Bydd hyn wedyn yn nacáu'r angen i'r Awdurdod Trwyddedu ofyn i weld copi o'r asesiad risg hwn a gallai leihau'r tebygolrwydd o gyflwyno sylwadau am y cais.

Adolygiad cyson o asesiadau risg

39.17 Fel enghraifft o arfer gorau, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n argymhell bod gweithredwyr yn sefydlu trefn adolygu reolaidd mewn perthynas ag asesiadau risg lleol. Gellir cynnal y rhaglen adolygu hon ar y cyd ag adolygiadau eraill o asesiadau risgiechyd a diogelwch ar gyfer y fangre. Byddai'r rhaglen adolygu hon yn sicrhau y caiff yr asesiadau risg hyn eu hystyried yn

gyson a'u diweddarau yn ôl yr angen, ni waeth a yw unrhyw un o'r digwyddiadau sbardun a nodwyd uchod wedi digwydd neu beidio.

39.18 Y gweithredwr gamblo fydd yn penderfynu pa mor aml i gynnal yr adolygiadau hyn ond argymhellir na ddylai cyfnod o 3 blynedd neu fwy fynd heibio cyn adolygu'r asesiadau hyn. Efallai bydd gweithredwyr yn dymuno cydamseru eu hadolygiadau o'r asesiadau risg lleol â'r broses o gyhoeddi Polisi Gamblo'r Awdurdod Trwyddedu. Byddai hyn yn caniatáu i weithredwyr gamblo ystyried y Proffil Ardal Leol a amlinellwyd ym mharagraff 3.0.

Risgiau lleol a mesurau rheoli

39.19 Mae dwy ran benodol i'r broses asesu risgiau:

- asesu'r risgiau lleol
- pennu mesurau lliniaru addas i leihau'r risgiau hynny

39.20 Mae'r risgiau y mae'n rhaid i weithredwyr eu nodi'n ymwneud â'r effaith bosib y gall mangre gamblo a'i gweithrediad ei chael ar yr amcanion trwyddedu. Dylai'r gweithredwr gamblo nodi a rhestru'r holl risgiau lleol a nodwyd ganddo yn yr asesiad. Gall lefelau risgiau o'r fath amrywio o fod yn isel i uchel iawn gan ddibynnu ar yr effaith bosib ar yr amcanion trwyddedu, fel a aseswyd gan y gweithredwr gamblo. Bydd lefel unrhyw risg benodol yn effeithio'n uniongyrchol ar fath a graddau'r mesurau rheoli y mae'r gweithredwr gamblo wedi eu nodi fel mesurau sy'n angenrheidiol i liniaru risg o'r fath.

39.21 Bydd gweithredwyr eisoes yn asesu lleoliadau wrth chwilio am safleoedd newydd neu wrth adolygu perfformiad eu mangreoedd. Caiff dyluniad mangreoedd ei asesu hefyd i sicrhau y diwellir anghenion y gweithrediad gamblo, y diogelir staff a chwsmeriaid ac y cynigir cyfleusterau sy'n cofnodi troseddau. Bydd gweithredwyr hefyd wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith o ran cynnal mangre yn unol â gofynion statudol a rheoleiddiol eraill a osodwyd arnynt gan y Comisiwn ac asiantaethau eraill.

39.22 Bydd gweithredwyr eisoes yn gyfarwydd â nodi risgiau mewn perthynas â deddfwriaeth iechyd a diogelwch a hylendid bwyd. Caiff asesiadau risg eu defnyddio at ddibenion diogelwch a throseddu hefyd, er enghraifft gwyngalchu arian ac fel rhan o arfer gorau gymdeithas fasnach, megis y Safe Bet Alliance.

39.23 Mae'r broses asesu risgiau lleol hon, er yn debyg, yn gofyn am amrywiaeth ehangach o lawer o ystyriaethau wrth nodi risgiau lleol. Yn ôl Darpariaethau Codau Cyfrifoldeb Cymdeithasol LCCP y Comisiwn, mae angen i weithredwyr gamblo ystyried yr ardal leol lle mae'r fangre wedi'i lleoli, a'r effaith y gall y fangre honno ei chael ar yr amcanion trwyddedu.

40.0. **Mwy o Wybodaeth**

Mae mwy o wybodaeth am Ddeddf Gamblo 2005, y Datganiad o Bolisi Trwyddedu hwn neu'r broses ymgeisio ar gael o'r:

Gwasanaethau Rheoleiddio Cyfreithiol
Canolfan Ddinesig
Port Talbot
SA13 1PJ

Ffôn: 01639 763050 (Gwasanaeth ffonio'n ôl)
E-bost: LRS@npt.gov.uk

Mae gwybodaeth hefyd ar gael gan:

The Gambling Commission
Victoria Square House
Birmingham
B2 4BP

Ffôn: 0121 230 6666
Gwefan: www.gamblingcommission.gov.uk

The Department for Culture, Media and Sport
100 Parliament Square
London
SW1A 2BQ

Ffôn: 020 7211 2210
Gwefan: www.culture.gov.uk



© Crown copyright. All rights reserved Neath Port Talbot CBC LA090131 - 10/08/2009

Printed with TPMS Viewer NPTCBC GIS V7.44N

ATODIAD 2

Ymgyngoreion - Datganiad o Egwyddorion

Heddlu De Cymru
Y Comisiwn Gamblo
British Association of Leisure Parks,
Piers & Attractions Ltd (BALPPA)
Bwrdd Rasio Milgwn Prydain
Cymdeithas Bingo
Cymdeithas Cwrw a Thafarnau Prydain
Cymdeithas Bwcis Prydain
Busnesau Chwaraeon a Hamdden
Cymdeithas Gweithredwyr Casinos y DU
Racecourse Association Ltd
Cymdeithas Adloniant a Masnach Arlwyo Prydain
Cymdeithas Casinos Prydain
Cymdeithas Parciau Cartrefi Gwyliau Prydain
Cynghorau Cymuned
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Castell-nedd Port Talbot
Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Deiliaid Trwyddedau/Hawlenni Presennol (S34, bingo, siopau betio)
CGG Castell-nedd Port Talbot
Partneriaeth Canol Tref Castell-nedd
Rheolwr Canol Tref Castell-nedd
Partneriaeth Lleihau Troseddu yn erbyn Busnesau
Siambr Fasnach Pontardawe
Siambr Fasnach Port Talbot
Siambr Fasnach Castell-nedd
Gamblers Anonymous
Cyngor ar Bopeth
Gamcare
Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Byrddau Diogelu Bae'r Gorllewin
Holl Gyfarwyddiaethau Awdurdodau Lleol, yn enwedig:
Is-adran Iechyd yr Amgylchedd
Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc

ATODIAD 3CRYNODEB O DDIRPRWYAETHAU AWDURDOD TRWYDDEDU O DAN
DDEDDF GAMBLO 2005

Materion i ymdrin â hwy	Cyngor Llawn	Pwyllgor Llawn	Is-bwyllgor	Swyddogion
Polisi Gamblo tair blynedd	X			
Polisi i beidio â chaniatáu casinos	X	X		
Pennu Ffioedd - pan fo'n briodol		X		
Ceisiadau am drwyddedau mangre			Lle bo sylwadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu'n ôl	Lle na dderbynnir sylwadau neu mae sylwadau wedi'u tynnu'n ôl
Cais am amrywiad i drwydded			Lle bo sylwadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu'n ôl	Lle na dderbynnir sylwadau neu mae sylwadau wedi'u tynnu'n ôl
Cais am drosglwyddo trwydded			Lle bo sylwadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu'n ôl	Lle na dderbynnir sylwadau neu mae sylwadau wedi'u tynnu'n ôl
Cais am ddatganiad amodol			Lle bo sylwadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu'n ôl	Lle na dderbynnir sylwadau neu mae sylwadau wedi'u tynnu'n ôl
Cais i adolygu trwydded mangre/tystysgrif mangre clwb			X	
Ceisiadau am hawlenni hapchwarae clwb/peiriannau clwb			Lle cafwyd gwrthwynebiadau (a heb eu tynnu'n ôl)	Lle na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau (neu maent wedi'u tynnu'n ôl)
Diddymu hawlenni hapchwarae clwb/peiriannau clwb			X	

Ceisiadau am hawlenni eraill		X
Diddymu hawlenni peiriannau hapchwarae mangre drwyddedig		X
Ystyried hysbysiad o ddefnydd dros dro		X
Penderfyniad i gyflwyno gwrth-hysbysiad i hysbysiad o ddefnydd dros dro	X	
Penderfyniad ynghylch a yw cwyn yn amherthnasol, yn ddisylwedd, yn flinderus, etc.		X
Penderfyniad fel Awdurdod		
Cyfrifol i alw am Adolygiad o Drwydded Mangre		X